Gyrfa Cymru
Careers Wales

RHIF COFRESTRU: 07442837 (Cymru a Lloegr)

# Career Choices Dewis Gyrfa Ltd

## Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a Datganiadau Ariannol

Ar Gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2025



**CYNNWYS Y DATGANIADAU ARIANNOL**
**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**


| | |
|---|---|
| GWYBODAETH AM Y CWMNI | 1 |
| ADRODDIAD STRATEGOL | 2 |
| ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR | 10 |
| DATGANIAD AM GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR | 14 |
| DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL | 16 |
| ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL | 24 |
| DATGANIAD AM ELW NEU GOLLED | 28 |
| DATGANIAD AM ELW NEU GOLLED AC INCWM CYNHWYSFAWR ARALL | 29 |
| DATGANIAD AM Y SEFYLLFA ARIANNOL | 30 |
| DATGANIAD AM NEWIDIADAU MEWN ECWITI | 32 |
| DATGANIAD AM LIFAU ARIAN | 33 |
| NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIAD AM LIFAU ARIAN | 34 |
| NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL | 35 |

## GWYBODAETH AM Y CWMNI

**CYFARWYDDWYR**

J Alexander
E Cassin
A Clark
K Daubney
A Jones-Griffith
D Matthews
A Smith
R Thomas
H White
V Laing
R Roberts
R Uddin
N Richards
A Ali

**YSGRIFENNYDD**

W Piper

**SWYDDFA GOFRESTREDIG:**

Uned 4 Tŷ Churchill
17 Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

**RHIF COFRESTRU:** 07442837 (Cymru a Lloegr)

**ARCHWILYDD:** Archwilydd Cyffredinol Cymru

## ADRODDIAD STRATEGOL

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad strategol am y cwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

### CEFNDIR STATUDOL

Is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru yw Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (CCDG) a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2013. Mae'n masnachu fel Gyrfa Cymru Careers Wales. Mae CCDG yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol a diduedd i bobl o bob oed yng Nghymru. Yn y flwyddyn ariannol hon, bu CCDG yn canolbwyntio ar y bedwaredd flwyddyn o weledigaeth strategol pum mlynedd y cwmni ar gyfer 2021-26, "Dyfodol Disglair", sy'n cynnwys presenoldeb digidol (gyrfacymru.llyw.cymru) a gwasanaeth ffôn integredig sy'n gysylltiedig â gweledigaeth Llywodraeth Cymru o greu Cenedl Wirioneddol Ddigidol yn ein model darparu gwasanaethau.

Mae CCDG yn cyflawni cylch gwaith a bennir gan Weinidog yr Economi ac sy'n cefnogi amcanion strategol Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a pholisïau cysylltiedig Llywodraeth Cymru. Mae gwaith CCDG yn helpu i ddatblygu sylfaen sgiliau'r genedl ac i gefnogi effeithiolrwydd gwariant ar addysg a hyfforddiant, a thrwy hynny gyfrannu at lesiant economaidd a chymdeithasol Cymru.

### PRIF AMCANION

Penderfyniadau ynglŷn â gyrfaoedd yw rhai o'r penderfyniadau pwysicaf y bydd pobl yn eu gwneud yn ystod eu hoes ac fe all gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd helpu i wneud y canlynol:

- Gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu a'r farchnad lafur
- Gwella hunanymwybyddiaeth, codi dyheadau unigol a chefnogi pobl i wneud penderfyniadau effeithiol am eu gyrfaoedd.
- Cynyddu mynediad at ddysgu a hyfforddiant, a chyfraddau cwblhau
- Ysgogi pobl i reoli eu gyrfaoedd, gwella sgiliau ymgeisio a chyfweld a bod yn wydn wrth addasu eu cynlluniau pan fydd amgylchiadau'n newid.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar anghenion grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli mewn cyflogaeth, dysgu neu hyfforddiant a thrwy herio stereoteipio; a
- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y farchnad lafur, er enghraifft, drwy wella'r cyfatebiaeth rhwng y sgiliau sydd ar gael a'r galw amdanynt.

### SWYDDOGAETHAU CRAIDD

Swyddogaeth graidd CCDG yw sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd a'r cymorth sy'n gysylltiedig â hynny drwy gyfweliadau cyfarwyddyd un i un, gwaith grŵp, mynediad i'r we a chanolfan gyswllt ddwyieithog. Rydym yn cefnogi cwsmeriaid i ddod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd, gan gydnabod nad dewis galwedigaethol unwaith ac am byth bellach yw rheoli gyrfa, ond yn hytrach y bydd pobl yn aml yn newid gyrfa sawl gwaith yn ystod eu hoes. Drwy wella sgiliau a chymwyseddau rheoli gyrfa, gall cwsmeriaid ymdrin yn haws â'r newidiadau hyn, cael mwy o foddhad yn eu gyrfa a chwarae rhan fwy gweithredol yn yr economi. Mae CCDG yn parhau i ddefnyddio dull cyfunol ym mhob maes o'i wasanaeth drwy ddulliau wyneb yn wyneb a digidol.

Mae swyddogaeth graidd CCDG wedi'i diffinio yn y llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru sy'n manylu ar amcanion CCDG. Mae'r llythyr cylch gwaith yn canolbwyntio ar yr amcanion strategol lefel uchel canlynol:

- Cefnogi'r rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, gan gynnwys gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.
- Diwygio addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru a gwaith y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr).

- Cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd ac i ddarparu swyddi da, sgiliau perthnasol a chyfleoedd hyfforddi newydd.
- Cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i greu 125,000 o brentisiaethau pob oed erbyn mis Mai 2026.
- Helpu i gyflwyno Gwarant i Bobl Ifanc gyda'r nod o roi cymorth i bobl ifanc o dan 25 oed yng Nghymru i gael gwaith neu hunangyflogaeth.

## Addysg

**Nifer y cwsmeriaid a gafodd gyfweliad**




**Cyfanswm y cyfweliadau**




## Cysylltiadau cwsmeriaid trwy ddefnyddio Cyswllt



Mae CCDG hefyd yn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer amryw brosiectau strategol.

**Prosiectau Strategol**

**1. Cymru'n Gweithio**

Mae'r gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi bod yn rhedeg ers 2019 ac mae'n cynnig asesiad, gwybodaeth, cyngor, cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfaoedd diduedd a gwasanaeth cyfeirio i oedolion a phobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn darparu pwynt mynediad Cymru gyfan ar gyfer cymorth cyflogadwyedd i unigolion sy'n 16 oed ac yn hŷn.

Yn ystod 2024 – 2025, fe wnaethom barhau i weld twf cyson yn y galw am wasanaethau Cymru'n Gweithio ledled Cymru a rhagori ar nifer y cwsmeriaid cyn Covid (37,889 yn 2024-25 o'i gymharu â 35,485 yn 2019-20). Gwelodd y galw am gymorth gan oedolion yn arbennig gynnydd sylweddol a allai ddeillio yn rhannol o'r cynnydd mewn diswyddiadau a welwyd ar yr un pryd. Roedd y galw am gymorth gan bobl ifanc yn gyson er gwaethaf newidiadau i reolau atgyfeirio y llynedd a oedd yn golygu nad CCDG bellach yw'r unig asiantaeth sy'n cyfeirio i Twf Swyddi Cymru+. Mae asiantaethau cyfeirio eraill bellach yn cynnwys y Gwasanaeth Ieuenctid, Cymunedau am Waith a thimau Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid. Roeddem hefyd yn falch o weld cynnydd cyson yn nifer y cwsmeriaid sy'n ymweld â chanolfannau gyrfaoedd, er y rhagwelir na fydd y rhain yn cyrraedd niferoedd cyn COVID o ystyried ein gallu bellach i gynnig gwell gwasanaethau digidol fel dewis amgen ochr yn ochr â chymorth wyneb yn wyneb.

**2. Cymorth Colli Swydd / ReAct+**

Eleni, parhaodd y cwmni i ddarparu gwasanaethau a chymorth i unigolion sydd wedi colli eu swydd neu sydd dan fygythiad o golli eu swydd. Cyflawnir y gwaith hwn mewn cydweithrediad agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cymunedau am Waith a Mwy a, lle bo'n briodol, timau Adnoddau Dynol cyflogwyr ac undebau llafur. Gwnaethom hefyd barhau i gefnogi rhaglen flaenllaw ReAct+ Llywodraeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn, bu'n rhaid i ni hefyd ddarparu ar gyfer newidiadau yn ystod y flwyddyn i reoliadau cymhwystra ReAct+ a oedd yn gofyn am ailhyfforddi staff a newidiadau i arferion blaenorol.

Mae holl ymgeiswyr rhaglen ReAct+ yn cael cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol a diduedd a bydd eu hanghenion hyfforddi yn cael eu hasesu gan gynghorydd gyrfa, a fydd yn rhoi cyngor ar gyrsiau a lleoliadau hyfforddi addas ac yn cefnogi ymgeiswyr i wneud cais am gyllid drwy borth ymgeisio React+ Llywodraeth Cymru. Mae pob ymgeisydd hefyd yn cael Cynllun Gweithredu ReAct+ sy'n gwneud achos busnes dros gymeradwyo cyllid. Mae'r gwaith hwn wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd diswyddiadau yn Tata Steel, Alun Griffiths Construction a PB Leiners.

**3. Twf Swyddi Cymru +.**

Eleni, fe wnaethom barhau i atgyfeirio pobl ifanc i raglen Hyfforddiant a Chyflogadwyedd Ieuenctid Llywodraeth Cymru, Twf Swyddi Cymru+, a lansiwyd ym mis Ebrill 2022. CCDG yw'r brif asiantaeth atgyfeirio i'r rhaglen hon o hyd ac mae'n cefnogi pobl ifanc yn y farchnad lafur a'r rhai sy'n bwriadu gadael yr ysgol i wneud cais am y rhaglen ac i bontio'n llwyddiannus.

**4. Profiad Gwaith wedi'i Deilwra (TWE)**

Nod y prosiect hwn yw cefnogi dysgwyr a nodwyd ym mlynyddoedd 10 ac 11 sydd â lefelau presenoldeb gwael ac felly mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg. Mae TWE fel arfer yn golygu bod dysgwr yn treulio un neu ddau ddiwrnod yr wythnos ar leoliad gwaith dros gyfnod estynedig, gan gwblhau astudiaethau craidd yn yr ysgol. Rydym yn derbyn atgyfeiriadau gan ysgolion, yn cyfweld â dysgwyr, yn trefnu lleoliadau, yn gwirio trefniadau iechyd a diogelwch ac yn monitro dysgwyr tra ar leoliad.

**5. Syniadau Mawr Cymru (BIW)**

Nod y prosiect hwn yw hyrwyddo entrepreneuriaeth a busnesau newydd i bobl ifanc hyd at 25 oed. Ni

sy'n gyfrifol am gyflawni elfennau allweddol y prosiect mewn lleoliadau cynradd ac uwchradd, megis rheoli cystadleuaeth menter genedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd a hwyluso o leiaf 1,000 o weithdai modelau rôl entrepreneuriaid mewn lleoliadau uwchradd ledled Cymru.

**PERFFORMIAD Y CWMNI 2024-2025**

Blwyddyn fusnes 2024-25 oedd pedwaredd flwyddyn cyflawni ein gweledigaeth Dyfodol Disglair, ac mae gwaith wedi canolbwyntio ar gyflwyno'r gweithgareddau i gyflawni'r nodau a'r canlyniadau strategol sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Rydym wedi mabwysiadu dull sydd yn fwy cyfun ar gyfer ein gwaith gyda chwsmeriaid, gyda chymysgedd o sianeli wyneb yn wyneb a digidol yn darparu mwy o ddewis a hwylustod.

Gwnaeth y llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru ofyn i CCDG gynnwys dangosyddion perfformiad mesuradwy y gallai eu defnyddio i fonitro effaith y cwmni. Roedd gan y Cynllun Busnes ystod eang a rhestr fanwl o fesurau perfformiad.

Nodir rhai o'r prif dargedau perfformiad isod:

**Targed 1: mae 95% o'r disgyblion sy'n cael gwasanaeth cyfarwyddyd ac anogaeth yn mynd ymlaen i addysg, gwaith neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol.**

Aeth 95.9% o'r bobl ifanc a gafodd wasanaeth cyfarwyddyd ac anogaeth ac a adawodd Flwyddyn 11 yn 2024 i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol.

**Targed 2: Mae 85% o bobl ifanc sy'n cael cymorth wedi'i dargedu yn mynd ymlaen i addysg, gwaith neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol.**

Aeth 92.8% o'r bobl ifanc a gafodd wasanaeth cymorth wedi'i dargedu ac a adawodd Flwyddyn 11 yn 2024 i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol.

**Targed 3: mae 90% o bobl ifanc mewn addysg yn dweud eu bod yn fwy ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.**

Dywedodd 96.6% o'r bobl ifanc eu bod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd.

**Targed 4: Mae Cytundebau Partneriaeth gyda 100% o sefydliadau partner sy'n galluogi gwell mynediad at fanteision cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfaoedd.**

Llofnododd 100% o sefydliadau Gytundeb Partneriaeth (243 o sefydliadau allan o 243).

**Targed 5: Mae CCDG yn hwyluso o leiaf un digwyddiad ymgysylltu â chyflogwyr mewn 95% o ysgolion uwchradd Cymru.**

Hwylusodd CCDG o leiaf un gweithgaredd ymgysylltu â chyflogwyr mewn 208 o ysgolion uwchradd, sef 99.5% o gyfanswm yr ysgolion yng Nghymru.

**Targed 6:** Nid oedd hyn bellach yn angenrheidiol yn y flwyddyn ariannol hon.

**Targed 7: Darperir hyfforddiant neu gymorth ymgynghorol i wella rhaglenni Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith i athrawon mewn 65% o ysgolion uwchradd prif ffrwd Cymru.**

Mae athrawon o 61.7% o'r ysgolion uwchradd hyn wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant neu gymorth ymgynghorol i wella rhaglenni Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith (129 o ysgolion allan o 209).

**Targed 8: Mae 85% o gwsmeriaid yn dweud bod gwasanaeth ar-lein yn diwallu eu hanghenion.**

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y gyfradd boddhad ar gyfer sgyrsiau gwe yn 87.8%, o gyfanswm o 1,200 o ymatebion.

**Targed 9: Mae 85% o gwsmeriaid yn dweud eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant (Cymru'n Gweithio).**

Anfonir arolwg ar-lein at holl gwsmeriaid Cymru'n Gweithio sy'n cael cyfweliad cyfarwyddyd. O'r cwsmeriaid a ymatebodd i'r arolwg, dywedodd 2,920% eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant.

**Targed 10: Bod 90% o unigolion yn cael cynnig apwyntiad cyntaf o fewn 5 niwrnod gwaith i'r cyswllt cyntaf.**

Cafodd 92% o unigolion gynnig apwyntiad cyntaf o fewn 5 niwrnod gwaith i'r cyswllt cyntaf.

## Y Gymraeg

Mae'n ofynnol i CCDG gydymffurfio â safonau penodol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, llunio polisïau, safonau gweithredu a chadw cofnodion. Un o'r gofynion yw cyhoeddi adroddiad ar berfformiad yn erbyn y safonau yn flynyddol. Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ar Safonau'r Gymraeg ym mis Medi 2024.

Erbyn 31 Mawrth 2025, fe wnaeth gweithwyr CCDG hunanasesu eu sgiliau Cymraeg eu hunain a nododd 56 eu bod yn siaradwyr Hyfedr a 63 eu bod yn siaradwyr safon Uwch. Mae hyn yn cyfateb i 20.03% o'r gweithlu yn hunanasesu eu hunain naill ai'n siaradwyr Cymraeg Hyfedr neu Uwch. Mae CCDG wedi ymrwymo i wella ei sefyllfa bresennol i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Sgiliau Iaith Gymraeg Gweithwyr – Niferoedd**

| Sgiliau | Siarad | Gwrando | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| Hyfedr | 56 | 56 | 53 | 43 |
| Uwch | 63 | 69 | 62 | 54 |
| Canolradd | 31 | 41 | 44 | 32 |
| Sylfaen | 56 | 47 | 51 | 60 |
| Mynediad | 203 | 195 | 187 | 183 |
| Dim Dealltwriaeth | 184 | 185 | 196 | 220 |
| Heb bennu | 1 | 1 | 1 | 2[1] |
| Cyfanswm | 594 | 594 | 594 | 594 |

**Sgiliau Iaith Gymraeg Gweithwyr – Canrannau**

| Sgiliau | Siarad | Gwrando | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| Hyfedr | 9.4 | 9.4 | 8.9 | 7.2 |
| Uwch | 10.6 | 11.6 | 10.4 | 9.1 |
| Canolradd | 5.2 | 6.9 | 7.4 | 5.4 |
| Sylfaen | 9.4 | 7.9 | 8.6 | 10.1 |
| Mynediad | 34.2 | 32.8 | 31.5 | 30.8 |
| Heb bennu | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.4 |
| Dim Dealltwriaeth | 31.0 | 31.1 | 33.0 | 37.0 |

[1] Erbyn y dyddiad cau ar 31 Mawrth, nid oedd un gweithiwr wedi pennu ei sgiliau Cymraeg ac nid oedd un arall wedi pennu ei sgiliau ysgrifennu ar gyfer y Gymraeg.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'w holl Gyrff Cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (pum ffordd o weithio) a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gweithio tuag at y saith nod llesiant. Nid yw CCDG ar y rhestr o Gyrff Cyhoeddus, ond mae llythyr cylch gwaith CCDG oddi wrth Lywodraeth Cymru yn nodi y bydd disgwyl i'r cwmni ddangos sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sail i'w holl waith.

Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i weinidogion Cymru osod dangosyddion cenedlaethol i asesu cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant. Er bod y dangosyddion cenedlaethol wedi'u cynllunio i gynrychioli'r canlyniadau i Gymru, a'i phobl, a fydd yn helpu i ddangos cynnydd tuag at y saith nod llesiant, mae CCDG wedi edrych yn ofalus arnynt i nodi'r rhai lle mae gennym rôl sylweddol i'w chwarae (dynodedig fel y dangosyddion gwyrdd).

Mae pob un o'r dangosyddion 'gwyrdd' hyn wedi'u mapio i un o bwyllgorau gweithredol y cwmni. Mae'r pwyllgorau wedi cael y dasg o fonitro cynnydd tuag at gydymffurfio yn ogystal ag adolygu priodoldeb y mesurau sydd ar waith.

| Cyswllt Llywodraethu | Dangosydd Gwyrdd |
|---|---|
| Grŵp Llywio Adeiladau a'r amgylchedd | 4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer. |
| Grŵp Llywio Adeiladau a'r amgylchedd | 15. Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen |
| Grŵp Llywio Adeiladau a'r amgylchedd | 41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. |
| Grŵp Llywio'r Gymraeg | 36. Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg. |
| Grŵp Llywio'r Gymraeg | 47. Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. |
| Tîm yr Uwch-reolwyr | 7. Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni "trothwy Lefel 2" gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys neu nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. (I'w ddisodli o 2017 gan sgôr pwyntiau cyfartalog disgyblion wedi'i chapio). |
| Tîm yr Uwch-reolwyr | 8. Canran yr oedolion sydd â chymwysterau ar lefelau gwahanol y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. |
| Tîm yr Uwch-reolwyr | 9. Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd (o gymharu â chyfartaledd y DU) |
| Tîm yr Uwch-reolwyr | 11. Canran y busnesau sy'n arloesi'n weithredol |
| Tîm yr Uwch-reolwyr | 21. Canran y bobl mewn cyflogaeth. |
| Tîm yr Uwch-reolwyr | 22. Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. |
| Tîm yr Uwch-reolwyr | 24. Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gyrraedd/cael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. |
| Tîm yr Uwch-reolwyr | 29. Sgôr llesiant meddwl cymedr ar gyfer pobl. |

**PERFFORMIAD ARIANNOL YN YSTOD Y FLWYDDYN**

Dangosir canlyniadau'r flwyddyn ariannol ar dudalen 28 ac ymlaen.

Fel gwasanaeth sector cyhoeddus, nid gwneud elw yw nod ariannol CCDG ond yn hytrach sicrhau bod arian yn cael ei wario'n effeithiol gan gynnig gwerth da am arian.

Ar hyn o bryd, mae Datganiadau Ariannol CCDG yn dangos bod gan y cwmni gronfeydd wrth gefn gwerth £2.80 miliwn.

Bydd perfformiad CCDG yn cael ei asesu'n fewnol ac yn allanol, yn benodol drwy ei Lythyr Cylch Gwaith a'r Ddogfen Fframwaith, y cytunir arnynt bob blwyddyn â Llywodraeth Cymru. Bydd ein perfformiad ar sail y Llythyr Cylch Gwaith yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru a bydd CCDG yn darparu adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru i'w helpu yn y broses fonitro hon. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn caniatáu i CCDG drosglwyddo hyd at 2% o gyllid incwm y cytunwyd arni â Llywodraeth Cymru o falansau arian parod sydd wedi'u codi ond heb eu gwario o'r naill flwyddyn ariannol i'r nesaf.

Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa wreiddiol y gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2024-25:

| **Eitem** | **£m** |
|---|---|
| Cyllid Llywodraeth Cymru a gyllidebwyd y cytunwyd arno | 31.4 |
| Y ganran y caniateir ei chario ymlaen - 2% | 0.6 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod diwedd y flwyddyn | 0.6 |

Mae prif ffynhonnell incwm CCDG yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn ariannol, cyfanswm y cyllid a dderbyniwyd oedd £31.4 miliwn o gymharu â £31.4 miliwn yn y gyllideb. Pan wnaethom fynd i wariant cyfalaf, mae incwm o £1,059 (2024: £887) wedi'i ohirio tan y flwyddyn ariannol nesaf.

## DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL

Rydym wedi derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y bydd ein hincwm yn £32.63m yn 2025-2026 yn dilyn cadarnhad y byddwn yn derbyn incwm ychwanegol tuag at gost cynnydd Yswiriant Gwladol y cyflogwr.

Drwy ei ail flwyddyn o'r strategaeth, cynigiodd CCDG ddull cyfun ar gyfer ein gwaith gyda chwsmeriaid, gyda chymysgedd o sianeli wyneb yn wyneb a digidol yn rhoi mwy o ddewis a hwylustod i'n cwsmeriaid. Rydym wedi parhau i ddatblygu a darparu gwasanaethau o ansawdd y mae ein cwsmeriaid a phartneriaid yn eu gwerthfawrogi, wedi gwella sgiliau ein staff proffesiynol ac wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd. Yn ystod 2025-2026, sef blwyddyn olaf Dyfodol Disglair, bydd CCDG yn gweithio i wella gwasanaethau i gwsmeriaid yn barhaus ac yn gwerthuso gwasanaethau i lywio ein harlwy parhaus o ran rhannu arferion da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ar hyn o bryd, mae'r cwmni'n datblygu ei strategaeth pum mlynedd nesaf, gan adeiladu ar lwyddiant Dyfodol Disglair yn 2021-2026.

Ar gyfer 2025-26, mae CCDG yn disgwyl i incwm o incwm Llywodraeth Cymru fod yn £32.63 miliwn. Fel y dangosir yn y tabl isod

| **Ffynhonnell cyllido** | **£miliwn** |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru – Craidd / Cymru'n Gweithio | 30.21 |
| Llywodraeth Cymru – Gwariant Cyfalaf | 2.00 |
| Llywodraeth Cymru – prosiectau | 0.42 |
| **Is-gyfanswm Llywodraeth Cymru** | **32.63** |
| Incwm arall o gontractau | 0.03 |
| **Amcangyfrif o gyfanswm incwm 2025-26** | **32.66** |

**PRIF RISGIAU A MEYSYDD ANSICRWYDD**

Rhoddir manylion rheoli risg yn yr adran benodol o'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol ar dudalennau 21-23.

Y prif risgiau y mae CCDG yn eu hwynebu yw'r canlynol:

- Ansicrwydd refeniw ar gyllid yn y dyfodol gan LlC.
- Darpariaeth gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) oherwydd gweithredu canllawiau newydd.
- Risgiau sy'n gysylltiedig â thorri mesurau diogelu.
- Risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu safonau'r Gymraeg.
- Diogelwch gwybodaeth oherwydd amgylchedd lle mae ymosodiadau digidol yn digwydd yn amlach.

**AR RAN Y BWRDD:**



..................................................................

**E Cassin - Cadeirydd**

Dyddiad: 04 Tachwedd 2025

## ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda Datganiadau Ariannol y cwmni am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Mae CCDG wedi mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Gweinidogion Cymru yw unig aelod CCDG. Mae'r cwmni'n gyfyngedig drwy warant gyda'r aelod yn cytuno i dalu swm o £1 os digwydd i'r cwmni gael ei ddirwyn i ben.

### DIFIDENDAU

Ni thelir unrhyw ddifidendau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

### DIGWYDDIADAU ERS DIWEDD Y FLWYDDYN

Rhoddir gwybodaeth am ddigwyddiadau ers diwedd y flwyddyn yn nodyn 16 i'r Datganiadau Ariannol.

### CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr a restrir isod wedi bod yn eu swyddi yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025:

J Alexander
K Daubney
A Clark
A Jones-Griffith
D Hagendyk (Ymddiswyddodd Gorffennaf 2024)
E Cassin (Cadeirydd)
R Thomas
D Matthews
A Smith
H White
J Harvey (Ymddiswyddodd Rhagfyr 2024)
R Uddin (Penodwyd Mehefin 2024)
N Richards (Penodwyd Mehefin 2024)
A Ali (Penodwyd Mehefin 2024)
R Roberts (Penodwyd Gorffennaf 2024)
V Laing (Penodwyd Chwefror 2025)

Mae pob Cyfarwyddwr yn anweithredol ac yn ddi-dâl. Ailbenodwyd Ms E Cassin yn Gadeirydd ar 01 Chwefror 2025 am gyfnod o 3 blynedd ar gyfradd ddyddiol o £337 gydag ymrwymiad amser uchaf o 40 niwrnod y flwyddyn. Telir £256 fel cyfradd y dydd fesul pwyllgor hefyd i gadeiryddion pwyllgorau.

### BUSNES HYFYW A DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Wrth fabwysiadu'r sail busnes hyfyw ar gyfer paratoi'r Datganiadau Ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried y gweithgareddau busnes, yn ogystal â phrif risgiau a meysydd ansicrwydd y cwmni fel y'u rhestrir yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Ar ôl trosglwyddo perchnogaeth i Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2013, daeth CCDG yn gorff cyhoeddus sy'n cael ei gyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Drwy lythyr cylch gwaith CCDG a'r llythyr cyllido, mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi cael cadarnhad y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu cymorth refeniw a chyfalaf ar lefel sy'n ddigonol i alluogi CCDG i barhau'n fusnes hyfyw tan 31 Mawrth 2026. Y tu hwnt i'r dyddiad hwn, mae CCDG yn gyfforddus y bydd y cwmni'n parhau i fod yn hyfyw am o leiaf flwyddyn ar ôl llofnodi'r cyfrifon hyn oherwydd lefel y cronfeydd wrth gefn cyfredol a rhagamcanion balans arian parod diwedd y flwyddyn. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol a fyddai'n creu unrhyw amheuon ynghylch gallu CCDG i barhau mewn busnes. Felly, bydd y Bwrdd yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

## ASEDAU ANGHYFREDOL

Dangosir manylion yr asedau anghyfredol yn nodiadau 7 i 9 a nodyn 15 i'r datganiadau ariannol.

## AMCANION A PHOLISÏAU RHEOLI RISGIAU ARIANNOL

Mae'r prif risgiau ariannol ar gyfer CCDG yn ymwneud â rheoli llifau arian a chyllidebu a chedwir y rhain ar y lefel risg uchaf ar ein cofrestr risg. Rydym yn cadw briff monitro manwl ar gyllidebau a llifau arian drwy gydol y flwyddyn ariannol oherwydd ansicrwydd ynghylch y cyllid yn y dyfodol. Incwm Craidd a Cymru’n Gweithio Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 oedd £31.4m. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau lefel cyllid o £32.63m ar gyfer 2025-26 ac, yn unol â'r datganiad busnes hyfyw, mae'r Bwrdd yn gyfforddus bod gan CCDG ddigon o hylifedd i barhau i fod yn fusnes hyfyw.

O ran rheoli llifau arian, nid oes risg sylweddol i gredyd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

### Polisi talu credydwyr

Mae CCDG wedi ymrwymo i dalu anfonebau a hawliadau eraill am daliad yn ddi-oed. Pan fydd nwyddau a gwasanaethau wedi'u cyflenwi'n foddhaol, nod y cwmni yw talu o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn yr anfoneb.

## STAFF

### Polisi Urddas a Pharch

Mae gan CCDG Bolisi Urddas a Pharch lle mae tegwch a chynhwysiant yr holl weithwyr yn egwyddorion sylfaenol i'r cwmni. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein gweithwyr ac yn parchu gwahaniaethau unigol o fewn amgylchedd gwaith cynhwysol. Mae gan bob gweithiwr yr hawl i weithle sy'n rhydd o fwlio, aflonyddu neu erledigaeth. Mae gan weithwyr yr hawl i gael eu trin ag urddas, parch a chwrteisi, i beidio â phrofi gwahaniaethu o unrhyw fath, ac i gael eu gwerthfawrogi am eu sgiliau a'u galluoedd. Rydym am barhau i ddenu a chadw gweithlu sy’n adlewyrchu cymunedau amrywiol, ac rydym wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu ac i gydymffurfio â’n dyletswyddau statudol. Ni fydd CCDG yn goddef unrhyw fath o ymddygiad annheg a gwahaniaethol mewn unrhyw agwedd ar fywyd gwaith unigolyn a bydd yn ymdrechu i greu diwylliant lle gall pawb ffynnu a chyflawni eu potensial llawn.

### Ymgynghori â Gweithwyr

Mae CCDG yn parhau i fod yn ymroddedig i gyfranogiad gweithwyr ac mae ganddo gytundeb cydnabyddiaeth ag Unsain. Mae uwch reolwyr CCDG ac Unsain yn ymgysylltu'n rhagweithiol mewn partneriaeth er budd yr holl weithwyr. Mae’r gweithwyr yn cael gwybod am berfformiad a strategaeth y cwmni drwy sesiynau briffio personol, cyfarfodydd rheolaidd, negeseuon e-bost a diweddariadau gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol, a thrwy gylchlythyr y staff, LINC.

Gall gweithwyr ryngweithio â'i gilydd, postio gwybodaeth am glybiau a grwpiau ar Viva Engage a chael gwybodaeth am ddigwyddiadau corfforaethol gan ddefnyddio mewnrwyd CCDG.

### Anabledd

Mae CCDG yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Bydd unrhyw ymgeisydd sy'n datgan anabledd ar ei ffurflen gais yn cael cyfweliad os yw’n bodloni meini prawf gofynnol y rôl. Gwahoddir pob ymgeisydd sydd ar y rhestr fer i roi gwybod i ni am unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen yn y cam cychwynnol a'r cyfweliadau.

Defnyddir iechyd galwedigaethol ar gyfer cyngor arbenigol ar wahanol anableddau a chyflyrau meddygol. Gwneir addasiadau rhesymol pan fo angen i gefnogi gweithwyr i allu gwneud eu swydd.

## ADRODDIAD AMGYLCHEDDOL

Mae CCDG yn cydnabod bod ei ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau'n dylanwadu er gwell ac er gwaeth ar yr amgylchedd ac mae'n awyddus i reoli a lliniaru hyn lle bynnag y bo modd. Ategir ein strategaeth amgylcheddol gan ein hamcan i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o fod yn garbon sero net erbyn 2030. Er mwyn ein helpu i wireddu'r nod hwn, rydym wedi rhoi Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar waith, sy’n cael ei harchwilio’n annibynnol, datblygu strategaeth sero net ac adnewyddu a gweithredu'r strategaeth ystadau. Mae'r prif egwyddorion i'w gweld yn ein polisi amgylcheddol a bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro drwy ddefnyddio system reoli amgylcheddol.

### Sut yr ydym yn rheoli'r broses


Nod CCDG yw ceisio sicrhau bod y broses ar gyfer rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd yn gwella o hyd. Rydym wedi sefydlu dau bwyllgor sy’n goruchwylio gofynion y gwaith monitro ac adrodd yn ein strwythur llywodraethu. Mae'r Grŵp Adeiladau a'r Amgylchedd yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol ac adolygu cynnydd yn erbyn targedau. Mae’r Tîm Gwyrdd yn gyfrifol am oruchwylio’r gwaith o archwilio a chynhyrchu’r data monitro ac am sicrhau bod y penderfyniadau strategol ar gyfer y flwyddyn yn cael eu gweithredu.

### Perfformiad Amgylcheddol

Yn y flwyddyn ariannol hon, fe wnaethom ddechrau cyflwyno ein strategaeth ystadau sy’n gwbl gyson â'n strategaeth sero net 2030, a'n harferion gweithio hybrid. Elfen allweddol o'n strategaeth yw lleihau ein portffolio ystadau a hefyd archwilio cyfleoedd cydleoli er mwyn darparu gwasanaeth lleol. Ein nod yw darparu swyddfeydd modern datblygedig yn dechnolegol, gydag allyriadau carbon isel a fydd yn rhoi'r gallu i ni ddarparu amgylcheddau gwaith modern sy'n caniatáu arferion gweithio hybrid. Er mwyn bodloni gofynion y strategaeth genedlaethol *'Ffyniant i Bawb'*, byddwn yn sicrhau bod ein portffolio ystadau yn mynd i'r afael ag anghenion y gymuned yr ydym yn gweithredu ynddi.

Mae gweithredu systemau rheoli’r amgylchedd yn barhaus a gwneud mwy o ddefnydd o ddata monitro i lywio penderfyniadau yn allweddol i gyflawni ein strategaeth sero net. Rydym wedi llwyddo i gyrraedd lefel pedwar y ddraig werdd yn y flwyddyn ariannol hon. Mae’r data amgylcheddol yn y tabl isod wedi’i gasglu o’r 28 o swyddfeydd sydd o dan ein rheolaeth lwyr a lle rydym yn derbyn anfonebau’n uniongyrchol gan y cyflenwr ynni. Mae gan bymtheg o'r swyddfeydd hyn wres canolog nwy. Yn ogystal ag adrodd ar ddata amgylcheddol sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn adrodd yn flynyddol ar wybodaeth amgylcheddol ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o allyriadau kg$CO_2$e ar gyfer gweithio gartref (103,884 eleni o'i gymharu â 103,351 yn 2024), milltiroedd teithio i'r gwaith (247,994 o'i gymharu â 232,396 yn 2024) ac allyriadau cadwyn gyflenwi (1,059,682 o'i gymharu â 868,920 yn 2024).

Mae cymariaethau Defnydd Ynni fel a ganlyn:




| Ynni | 2022-2023 | 2023-2024 | 2024-2025 |
|---|---:|---:|---:|
| Dŵr (litrau) | 1,936,000 | 1,360,000 | 1,194,000 |
| Milltiroedd Busnes | 275,919 | 412,892 | 402,892 |
| Trydan kWh | 356,144 | 355,334 | 357,080 |
| Nwy kWh | 1,270,523 | 832,842 | 896,571 |
| Nwyon tŷ gwydr CO2 - tunelli | 383 | 298. | 351 |
| Costau ariannol | £ | £ | £ |
| Nwy | 26,851 | 41,587 | 28,286 |
| Trydan | 113,626 | 220,809 | 177,163 |
| Dŵr | 16,891 | 9,362 | 8,401 |

| Defnydd y pen – niferoedd staff | 2022-2023 | 2023-2024 | 2024-2025 |
|---|---|---|---|
| Niferoedd staff yn seiliedig ar gyfanswm y gweithwyr yn ystod y flwyddyn | 637 | 661 | 641 |
| Dŵr (litrau) | 3,039 | 2,057 | 1,862 |
| Milltiroedd Busnes | 433 | 625 | 628 |
| Trydan kWh | 559 | 538 | 557 |
| Nwy kWh | 1,995 | 1,260 | 1,398 |
| Nwyon tŷ gwydr CO2 - tunelli | 0.6 | 0.51 | 0.55 |

Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli'r defnydd o ynni ar draws busnes CCDG. Er mwyn cyfrifo'r tunelli CO2 o allyriadau ar gyfer nwy a thrydan, rydym yn defnyddio'r ffactor kWh kgCO2e, sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2025, roedd y gyfradd drosi yr un fath â'r flwyddyn flaenorol, sef 0.225 kgCO2e. Yn 2024/25, roedd ein holl swyddfeydd ar agor mewn patrwm tebyg i 2023/24 ac fe wnaethom barhau i weithredu model gweithio hybrid. Caewyd swyddfa Caerffili ac uned weinyddol fechan yng Nglynebwy. Fe wnaethom osod ynni solar mewn dau eiddo sy'n eiddo i ni yn Aberystwyth a Wrecsam, gwella insiwleiddio yn y ddwy swyddfa a gosod ffenestri ynni-effeithlon yn Wrecsam. Yn y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein heiddo i wella eu perfformiad amgylcheddol drwy osod ffenestri newydd, pympiau gwres o'r aer a gwell insiwleiddio.

Ym mlwyddyn ariannol 2025/26, rydym yn bwriadu lleihau ein portffolio ystadau ymhellach drwy roi'r gorau i brydlesi sy'n dod i ben ac rydym wedi derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd a Llywodraeth Cymru i werthu rhai eiddo. Dylai hyn arwain at allyriadau carbon is ar ddiwedd y flwyddyn. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar leihau ein hôl troed carbon sy'n gysylltiedig â'n cadwyn gyflenwi drwy weithio'n agos gyda'n deg prif gyflenwr i ddeall yn well pa gyfran o'u hallyriadau gwirioneddol y gellir eu dyrannu i'n cyfrifiadau allyriadau carbon.

## DATGANIAD AM GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r Datganiadau Ariannol yn unol â deddfau a rheoliadau perthnasol.

Yn ôl cyfraith cwmnïau, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi Datganiadau Ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. O dan gyfraith cwmnïau, rhaid i'r Cyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o elw neu golled y cwmni am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol hyn, bydd gofyn i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- Dethol polisïau cyfrifyddu addas ac wedyn eu rhoi ar waith yn gyson;
- Llunio barn ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- Datgan bod y Datganiadau Ariannol yn cydymffurfio â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni'n parhau mewn busnes.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol i ddangos ac esbonio trafodiadau'r cwmni ac i ddatgelu'n gymharol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y cwmni ac i'w galluogi i sicrhau bod y Datganiadau Ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

**DATGANIAD AM DDATGELU GWYBODAETH I ARCHWILWYR**

Cyn belled ag y mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol (fel y'i diffinnir yn adran 418 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilwyr y cwmni'n ymwybodol ohoni, ac mae pob Cyfarwyddwr wedi cymryd pob cam y dylai ef neu hi fod wedi'u cymryd fel Cyfarwyddwr er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y cwmni'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**ARCHWILYDD**

Penodir Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Lywodraeth Cymru fel archwilydd allanol y cwmni.

**AR RAN Y BWRDD:**

**E Cassin - Cadeirydd**

Dyddiad: 04 Tachwedd 2025

**DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL YR ADRODDIAD BLYNYDDOL**

## CYFLWYNIAD

Yn rhinwedd fy swydd fel y Prif Weithredwr (Swyddog Cyfrifyddu), rwy'n bersonol gyfrifol am drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol CCDG.

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn ynghyd yr holl ddatgeliadau am faterion sy'n berthnasol i lywodraethu, risg a rheolaeth sefydliad mewn un man. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu, sy'n amlinellu sut rwyf wedi ysgwyddo fy nghyfrifoldeb i reoli a chadw trefn ar adnoddau CCDG yn ystod y flwyddyn ariannol.

## LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Llywodraethu corfforaethol yw'r system a ddefnyddir i gynnig cyfeiriad i sefydliadau a'u rheoli. Mae Bwrdd CCDG yn gyfrifol am lywodraethu CCDG a chydymffurfio â'r cod llywodraethu corfforaethol. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol ar waith a sicrhau drwof fi, y Prif Weithredwr, fod y sefydliad yn gweithredu o fewn y fframwaith polisi a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Ms E Cassin, a hyd at 13 o Gyfarwyddwyr eraill a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cadeirydd yn derbyn tâl ar gyfradd o £337 y dydd am uchafswm o 40 niwrnod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod bedair gwaith yn ystod y flwyddyn hon.

Mae pob Cyfarwyddwr ac aelod cyfetholedig ac aelodau'r Tîm Uwch-reolwyr yn llenwi ffurflen Datganiad Parti Cysylltiedig i sicrhau bod gwrthdaro rhwng buddiannau posibl yn cael ei nodi. Llenwyd y ffurflen hon ddiwethaf hyd at fis Mawrth 2025. Atgoffir y Cyfarwyddwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddatgan unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau cyn cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Wedyn, bydd unrhyw wrthdaro'n cael ei ddatgan yn y cofnodion ac ni fydd y Cyfarwyddwr neu'r aelod cyfetholedig yn cymryd rhan yn yr eitem honno ar yr agenda.

Penododd y Bwrdd dri phwyllgor, pob un â'i gylch gorchwyl ei hun, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau ac er mwyn cael y sicrwydd sy'n ofynnol i ddangos bod arferion llywodraethu da ar waith. Mae'r pwyllgorau fel a ganlyn:



Dangosir cofnod presenoldeb y Cyfarwyddwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn y tablau isod:

**COFNOD AELODAETH A PHRESENOLDEB 2024-25**

**Cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac Aelodau Cyfetholedig**

| Aelod | 17/07/24 | 01/10/24 | 11/12/24 | 05/03/25 | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| R Thomas | x | ✓ | ✓ | x | **2/4 50%** |
| E Cassin (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| D Mathews | x | ✓ | X | x | **1/4 25%** |
| H White | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| A Smith | ✓ | x | ✓ | ✓ | **3/4 75%** |
| A Clark | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| J Harvey | ✓ | ✓ | X | Amherthnasol | **2/3 67%** |
| J Alexander | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| K Daubney | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| A Jones-Griffith | x | ✓ | ✓ | x | **2/4 50%** |
| A Ali | ✓ | ✓ | ✓ | x | **3/4 75%** |
| R Uddin | ✓ | ✓ | ✓ | x | **3/4 75%** |
| N Richards | ✓ | ✓ | X | x | **2/4 50%** |
| R Roberts* | x | ✓ | ✓ | ✓ | **3/4 75%** |
| Prif Weithredwr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| V Laing | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | ✓ | **1/1 100%** |

Bydd holl gofnodion cyfarfodydd y pwyllgorau'n cael eu darparu ar gyfer y Bwrdd. Mae'r Prif Weithredwr yn aelod gweithredol o bob pwyllgor.

Mae'r holl Gyfarwyddwyr ac aelodau cyfetholedig uchod yn annibynnol. Mae'r Cyfarwyddwyr yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru, mae'r broses recriwtio yn dryloyw gan fod swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n eang a chyfweliadau yn cael eu cynnal i ddethol.

*Aelod cyfetholedig

**Y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg**

| Aelod | 26/06/24 | 07/08/24 | 07/11/24 | 30/01/25 | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| A Clark (Cadeirydd) | x | ✓ | ✓ | ✓ | **3/4 75%** |
| A Jones-Griffith | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| H White | ✓ | X | ✓ | x | **2/4 50%** |
| Prif Weithredwr | ✓ | ✓ | x | ✓ | **3/4 75%** |
| D Matthews | ✓ | X | ✓ | ✓ | **3/4 75%** |
| R Uddin | ✓ | X | ✓ | x | **2/4 50%** |

| Aelod | 26/06/24 | 07/08/24 | 07/11/24 | 30/01/25 | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Adnoddau a Thrawsnewid | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| Pennaeth Cyllid ac Ystadau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| Archwilio Cymru (Archwilwyr Allanol) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| TIAA (Archwilwyr Mewnol) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |

**Y Pwyllgor Materion Pobl a Chyflogau**

| Aelodau | 12/06/24 | 19/09/24 | 04/12/24 | 03/02/25 | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| A Smith (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| J Alexander | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| R Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| A Ali | x | ✓ | ✓ | ✓ | **3/4 75%** |
| Prif Weithredwr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| Cyfarwyddwr Adnoddau a Thrawsnewid | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4 100%** |
| Pennaeth Datblygu Pobl | ✓ | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | **1/1 100%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwr Adnoddau Dynol | Amherthnasol | Amherthnasol | ✓ | ✓ | **2/2<br>100%** |

**Y Pwyllgor Perfformiad ac Effaith**

| Aelodau | 07/05/24 | 11/07/24 | 17/10/24 | 04/03/25 | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| D Hagendyk (Cadeirydd) | X | X | Amherthnasol | Amherthnasol | **0/2<br>0%** |
| K Daubney | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4<br>100%** |
| J Harvey | X | X | X | Amherthnasol | **0/3<br>0%** |
| R Thomas (dirprwy Gadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4<br>100%** |
| N Richards | Amherthnasol | ✓ | ✓ | ✓ | **3/3<br>100%** |
| V Laing | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | ✓ | **1/1<br>100%** |
| Prif Weithredwr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4<br>100%** |
| T McLelland * | ✓ | ✓ | Amherthnasol | Amherthnasol | **2/2<br>100%** |

| | 07/05/24 | 11/07/24 | 17/10/24 | 04/03/25 | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Strategaeth Cwsmeriaid a Datblygu Gwasanaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **4/4<br>100%** |
| Pennaeth Ansawdd a Chynllunio | ✓ | ✓ | ✓ | X | **3/4<br>75%** |

*Aelod cyfetholedig

**Y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg**

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar Cyfarwyddwr ac fe gyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae ei gylch gorchwyl fel a ganlyn:

1. Sicrhau bod gan y cwmni system reolaeth ariannol gadarn, a phrosesau effeithiol ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau drwy ddefnyddio cofrestr risgiau
2. Argymell penodi bancwyr, archwilwyr mewnol, archwilwyr allanol a chynghorwyr ariannol eraill, yn ôl y gofyn, gan ddilyn y drefn briodol
3. Sefydlu gweithdrefn gadarn ar gyfer caffael, i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian
4. Sicrhau, yn unol â'r ddeddfwriaeth, fod gan y cwmni bolisïau effeithiol i ymdrin ag achosion posibl o anghysondeb, twyll neu lwgrwobrwyo
5. Adolygu'n barhaus iechyd ariannol y cwmni. Cynnwys y gwaith o fonitro ac adolygu'r Cynllun Busnes a gwariant yn erbyn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol
6. Datblygu ac argymell cynllun busnes hyfyw, a chyllideb ar gyfer y cwmni bob blwyddyn
7. Ystyried datganiadau ariannol a gwneud argymhellion yn eu cylch, ac yn benodol gyfrifon blynyddol y cwmni
8. Ystyried materion a gyfeirir at y pwyllgor gan y Bwrdd
9. Adrodd i'r Bwrdd.

**Y Pwyllgor Materion Pobl a Chyflogau**

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar Cyfarwyddwr ac fe gyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae ei gylch gorchwyl fel a ganlyn:

1. Bydd y Pwyllgor yn derbyn ac yn cymeradwyo unrhyw ddrafft cychwynnol ac ailddrafftiau wedyn o'r Strategaeth Adnoddau Dynol a'r Cynllun(iau) Gweithredu.
2. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod strwythur cyflogau priodol ar waith ac, yn amodol ar allu'r cwmni i'w fforddio, bydd yn pennu lefelau cyflog y Prif Weithredwr.
3. Bydd y Pwyllgor yn craffu'n drwyadl er mwyn sicrhau bod y cwmni'n cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau cyflogaeth.
4. Bydd y Pwyllgor yn arwain ar faterion Iechyd a Diogelwch ac Amrywiaeth. .
5. Bydd y Pwyllgor yn ystyried materion o'r fath a gyfeirir ato gan y Bwrdd.
6. Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd am bob mater sy'n berthnasol i gyflogaeth a lles staff CCDG, ac yn cynnig cyngor ar faterion priodol.
7. Bydd y Pwyllgor hefyd yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r canlynol:
   - datblygu polisïau cyflogaeth priodol, gan gynnwys y rheini ar gyfer penodi, telerau ac amodau, disgyblu, cwyno, gwobrwyo a chydnabod gweithwyr
   - datblygu diwylliant a gwerthoedd y cwmni'n barhaus
   - ymgysylltu â gweithwyr a'u cynnwys
   - cyfathrebu mewnol effeithiol yn y sefydliad.

**Y Pwyllgor Perfformiad ac Effaith**

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar Cyfarwyddwr ac fe gyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae ei gylch gorchwyl fel a ganlyn:

1. Cael trosolwg o ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau a swyddogaethau ategol

2. Monitro, craffu a chynghori ar berfformiad yn ystod y flwyddyn mewn perthynas ag ansawdd a maint a chynnydd yn erbyn y cynllun busnes
3. Herio ac adolygu’r effaith gaiff y cwmni
4. Craffu ar adborth cleientiaid a rhanddeiliaid a monitro sut mae'n cael ei ddefnyddio o ran llywio datblygiad y gwasanaeth (gan gynnwys TGCh) a strategaethau ymgysylltu
5. Hyrwyddo a chefnogi gwerth am arian, gan edrych ar ba wasanaethau y dylid buddsoddi adnoddau ynddynt i sicrhau adenillion da o fuddsoddi
6. Cefnogi ac adolygu'r ffordd y bydd y cwmni'n darparu'r gwasanaethau drwy sianeli TG /digidol / marchnata
7. Ystyried unrhyw faterion y gallai’r Bwrdd fod wedi eu cyfeirio at y pwyllgor
8. Adrodd i'r Bwrdd.

### Y Tîm Uwch-reolwyr

Mae'r tîm yn cyfarfod yn rheolaidd o bell ac wyneb yn wyneb i drafod materion corfforaethol a gweithredol a chytuno arnynt. Cyhoeddir adroddiad am berfformiad CCDG bob chwarter a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd i fonitro'r cynnydd o'i gymharu â'r cynllun busnes.

### Data am absenoldeb oherwydd salwch

Yn 2024/25, collodd y Cwmni 5.7% o ddiwrnodau gwaith cynhyrchiol yn sgil absenoldeb oherwydd salwch. Mae hyn yn ostyngiad o 1.8% o'i gymharu â’r cyfnod adrodd blaenorol. Byddwn yn parhau i roi ymyriadau ar waith i leihau'r ffigur hwn ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

Rydym wedi defnyddio’r mentrau arferion gorau canlynol i reoli absenoldeb oherwydd salwch:

- Cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith ar ôl pob absenoldeb, adolygu gwaith papur a’r adran Adnoddau Dynol i fynd ar drywydd y gwaith papur hwnnw i sicrhau ei ansawdd
- Defnyddio ffactor Bradford i dynnu sylw at y gweithwyr hynny sydd â lefelau uchel o absenoldeb tymor byr er mwyn targedu ymdrechion
- Nodi’r unigolion sy’n absennol am fwy nag 19 diwrnod di-dor a'u helpu i ddychwelyd i'r gwaith yn fuan drwy gynnig cyfle iddynt ddychwelyd yn raddol (gweithio'n rhan-amser am gyfnod adsefydlu byr)
- Defnyddio sbardunau sy'n berthnasol i niferoedd ac amlder absenoldebau tymor byr sy'n ysgogi camau megis cyfarfodydd cwnsela anffurfiol a ffurfiol ac o bosibl rybuddion
- Defnyddio atgyfeiriadau at y gwasanaeth iechyd galwedigaethol pan welir patrymau o absenoldeb aml a chynyddol ac er mwyn rheoli ymddeoliadau oherwydd afiechyd
- Atgyfeirio achosion o salwch meddwl i’r gwasanaeth iechyd galwedigaethol yn gynnar
- Gweithio gyda'r undeb llafur cydnabyddedig ar fentrau absenoldeb
- Mae rheolwyr yn derbyn yr ystadegau ar gyfer absenoldeb bob mis i'w trafod â'u timau
- Defnyddio cylchlythyr y cwmni i hyrwyddo mentrau iechyd
- Defnyddio gwasanaeth allanol i weithwyr adrodd am absenoldeb oherwydd salwch a monitro bod cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith yn cael eu cwblhau. Mae hyn yn darparu data salwch cadarn iawn
- Strategaethau iechyd a llesiant rhagweithiol sydd wedi arwain at ennill Gwobr Arian y Safon Iechyd Corfforaethol

### Chwythu’r Chwiban

Ers 2013, mae gan CCDG bolisi a gweithdrefnau chwythu’r chwiban yr ymgynghorwyd yn eu cylch ac y cytunwyd arnynt â'r undeb llafur cydnabyddedig. Cyflwynwyd y polisi i bob gweithiwr drwy gylchlythyr y cwmni ac mae ar gael yn ddwyieithog i unrhyw weithiwr ar fewnrwyd y cwmni. Mae'r polisi'n cynghori gweithwyr am yr hyn y dylid ei wneud ac at bwy y dylid adrodd, yn fewnol ac yn allanol, os byddant o'r farn bod camymddwyn yn digwydd ac y byddai er budd y cyhoedd ei ddatgelu. Mae'r polisi hefyd yn trafod hawliau gweithwyr ac yn eu cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth am y cyrff adrodd perthnasol. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau chwythu’r chwiban yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Rheoli Risg**

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n berthnasol i weithrediadau CCDG. Mae CCDG wedi cynnal asesiad risg cynhwysfawr o'r risgiau mae'n eu hwynebu. Mae'r prif risgiau wedi'u cynnwys yng Nghofrestr Risgiau CCDG, sy’n cael ei hadolygu’n rheolaidd gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg a'r Tîm Uwch-reolwyr.

Seilir y system rheolaeth fewnol ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni nodau ac amcanion y cwmni ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae Cofrestr Risgiau CCDG yn nodi'r risgiau posibl sy'n codi yn sgil gweithredu'r cwmni. Mae'r risgiau hyn yn cael eu blaenoriaethu ar fatrics risgiau ac fe roddir proffil risg iddynt yn unol â'r effaith a'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. Bydd y sgoriau risg hyn yn cael eu hadolygu ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg ac fe gyflwynir adroddiad i bob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Gofrestr Risgiau’n cynnwys rhestr o fesurau ataliol ar gyfer pob un o'r risgiau a nodir, yn ogystal â'r mesurau a'r camau wrth gefn er mwyn lliniaru canlyniadau digwyddiad a gostwng lefel y risg, gan hwyluso camau adfer os digwydd unrhyw argyfwng. Cynlluniwyd y system reolaeth fewnol i reoli risg hyd at lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â gwireddu polisïau, nodau ac amcanion. Felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi yn hytrach na sicrwydd llwyr.

Fel y Prif Weithredwr, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad hwn ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol penodedig, TIAA, a’r rheolwyr yn CCDG sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ynghyd â sylwadau ac argymhellion a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli a'r archwiliadau mewnol yn eu hadroddiadau. Mae'r archwilwyr mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ac yn cynnig barn flynyddol annibynnol am ba mor ddigonol ac effeithiol yw system rheolaeth fewnol CCDG, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Mae'r archwilwyr mewnol yn gweithredu yn unol â safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Maent yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg ac yn cyflwyno'u hadroddiadau i'r pwyllgor ac yn sôn am y cynnydd sydd wedi’i wneud o ran y rhaglen waith a gynlluniwyd. Nododd yr archwiliad mewnol blynyddol fod gan CCDG brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith yn ystod y flwyddyn. Mae’r farn hon yn seiliedig ar y materion a ddaeth i’w sylw yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol yn unig ac nid yw’n farn ar holl elfennau'r prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu. Archwiliwyd y meysydd canlynol o fewn y flwyddyn- TGCh Seiberddiogelwch, Rheolaethau Ariannol Allweddol, Cynaliadwyedd a Lleihau Carbon, Y Gymraeg, Rheolaeth Strategol, a Rheoli Risg. Rhoddwyd sicrwydd sylweddol i bob maes o'r adolygiadau archwilio ac eithrio Rheoli Risg a gafodd sicrwydd rhesymol.

Pennir y Strategaeth Archwilio Mewnol gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg ac fe'i hadolygir gan y Bwrdd. Yn fwy cyffredinol, mae CCDG wedi ymrwymo i broses o ddatblygu a gwella parhaus, datblygu systemau i ymateb i unrhyw adolygiadau a datblygiadau perthnasol o ran arferion gorau. Mae cynlluniau gweithredu priodol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodir ac i sicrhau gwelliant parhaus. Mae rheolwyr yn rhoi argymhellion yr archwilwyr mewnol a'r argymhellion yn llythyr rheoli'r archwiliad allanol ar waith. Bydd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg yn parhau i fonitro'r gweithgaredd hwn.

Rwy’n fodlon bod fframwaith llywodraethu cadarn a system rheolaethau mewnol ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Mae’r rhain wedi cefnogi’r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion CCDG; wedi hwyluso cyflawni swyddogaethau CCDG yn effeithiol, ac wedi diogelu’r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu’n bersonol gyfrifol amdanynt. Mae'r materion llywodraethu a rheolaeth hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn y Ddogfen Fframwaith a roddwyd i CCDG gan Lywodraeth Cymru.

Mae staff yn parhau i weithio mewn ffordd ystwyth mewn safleoedd lle bo'n briodol ac yn gweithio o gartref. Rydym wedi parhau i ddefnyddio dull digidol i hwyluso gweithio o bell. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgorau wedi cyfarfod drwy MS Teams neu wyneb yn wyneb o bryd i’w gilydd. Yn ystod y flwyddyn hon roeddem yn gallu cyflawni gan ddefnyddio dull cyfun o gyfweliadau wyneb yn wyneb, cyfweliadau dros y ffôn a chyfweliadau drwy fideogynadledda.

Rydym wedi cynnal ein rheolaethau mewnol drwy gydol y cyfnod wrth i ni barhau i ddilyn canllawiau fframwaith Llywodraeth Cymru a’n rheoliadau ariannol ein hunain. Mae ein harchwiliadau mewnol wedi'u cwblhau ac rydym ar y trywydd iawn i fodloni'r amserlen a osodwyd ar gyfer eleni. Mae'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg wedi cymryd diddordeb mawr yn ein mecanweithiau rheoli risg ac mae'r rhain wedi'u diweddaru yn ystod y flwyddyn.

**N Lawrence**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu CCDG**

Dyddiad: 04 Tachwedd 2025

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I'R AELOD CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Career Choices Dewis Gyrfa Ltd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, sy'n cynnwys y Datganiad am Elw neu Golled, y Datganiad am Elw neu Golled ac Incwm Cynhwysfawr Arall, y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti, y Datganiad am Lifau Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi cael ei gymhwyso wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg ar gyflwr materion y cwmni ar 31 Mawrth 2025 a'i ddiffyg am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU
- wedi'u paratoi'n unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, defnyddiwyd y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a Nodyn Ymarfer 10, 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny'n cael eu disgrifio'n ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y cwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gwaith o archwilio datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth rwyf wedi'i chasglu ar gyfer yr archwiliad yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad ei bod yn briodol defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu’r wybodaeth arall ac, ar wahân i’r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o’r fath, neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i’r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi’i gyflawni, fod yna gamddatganiad perthnasol o’r wybodaeth arall hon, mae’n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i’w adrodd yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill a ragnodir yn Neddf Cwmnïau 2006**

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r wybodaeth a roddir yn yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr wedi'u paratoi'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol

**Materion y byddaf yn adrodd yn eu cylch drwy eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad strategol nac adroddiad y cyfarwyddwyr.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a’r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu na dderbyniwyd datganiadau digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw’r datganiadau ariannol yn cyfateb i’r cofnodion a datganiadau cyfrifyddu;
- na wneir datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth cyfarwyddwyr a bennir yn ôl y gyfraith; neu
- nad oedd gan y cyfarwyddwyr yr hawl i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r trefniadau ar gyfer cwmnïau bach.

**Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr ar gyfer y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau cyfarwyddwyr a nodir ar dudalen 13, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am wneud y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â gofynion perthnasol y fframwaith adrodd ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaeth fewnol fel y mae'r cyfarwyddwyr yn pennu sy’n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy’n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu oni bai bod y cyfarwyddwyr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y cwmni yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu'n llwyr fod archwiliad a wnaed yn unol â safonau ISA (y DU) yn gallu canfod cam-ddatganiad pwysig bob tro. Gall cam-ddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn bwysig neu'n sylweddol os gellir disgwyl yn rhesymol i'r cam-ddatganiadau, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd a wnaed gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Career Choices Dewis Gyrfa Cyf (CCDG) yn ymwneud â
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll a ph'un a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll yr amheuir neu dwyll honedig; a
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll o bostio cyfnodolion anarferol.
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod CCDG yn ogystal â rhai fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae CCDG yn eu gweithredu, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau CCDG
- cael dealltwriaeth o berthnasoedd â phartïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod.
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl.
- darllen cofnodion cyfarfodydd y cyfarwyddwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Gwnes i hefyd rannu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodi risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio a daliais yn wyliadwrus am unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Careers Choices Dewis Gyrfa Ltd, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd, i gyd yn effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

**Cyfrifoldebau eraill archwilydd**

Rwy'n canfod tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a’r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi’u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a’r canfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffyg sylweddol yn y rheolaeth fewnol yr wyf yn ei ganfod yn ystod fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylw i’w wneud ar y datganiadau ariannol hyn.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
11 Tachwedd 2025

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF1 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio’r cyfrion hyn y ffurf y cawsant eu drafftio’n wreiddiol. Cyfieithiad o’r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw’r fersiwn hwn. CCDG Career Choices Dewis Gyrfa Ltd sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

**DATGANIAD AM ELW NEU GOLLED**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

| | Nodiadau | 2025 | 2024 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **GWEITHREDIADAU PARHAUS** | | | |
| Refeniw | 2 | 31,427 | 34,840 |
| Treuliau gweinyddol | 22 | (32,008) | (35,945) |
| Elw sy'n deillio o eitemau sy'n ymwneud ag eiddo | | - | - |
| **ELW / (COLLED) WEITHREDOL** | | (581) | (1,105) |
| Costau cyllid | 4 | (9,493) | (9,219) |
| Incwm cyllid | 4 | 13,310 | 11,850 |
| **ELW / (COLLED) CYN TRETH** | | 3,236 | 1,526 |
| Costau trethi | 6 | (21) | (22) |
| **ELW/ (COLLED) AM Y FLWYDDYN** | | 3,215 | 1,504 |
| (Colled) i'w phriodoli i: | | | |
| Perchennog y cwmni | | 3,215 | 1,504 |

Mae'r nodiadau o dudalen 34 i dudalen 77 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

**DATGANIAD AM ELW NEU GOLLED AC INCWM CYNHWYSFAWR ARALL**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

| | Nodiadau | 2025 | Ailddatganwyd 2024 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **ELW / (COLLED) AM Y FLWYDDYN** | | 3,215 | 1,504 |
| **Incwm cynhwysfawr arall** | | | |
| **Eitemau na chânt eu hailgategoreiddio i elw neu golled:** | | | |
| Colled actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | | (3,739) | (10,499) |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR ARALL AM Y FLWYDDYN, NET O DRETH** | | (524) | (8,995) |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN** | | (524) | (8,995) |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr y gellir ei briodoli i: | | | |
| Perchennog y cwmni | | (524) | (8,995) |

Mae'r nodiadau o dudalen 34 i dudalen 77 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

## DATGANIAD AM Y SEFYLLFA ARIANNOL

### 31 MAWRTH 2025

| | Nodiadau | 2025 | Ailddatganwyd 2024 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **ASEDAU** | | | |
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 7 | 2,649 | 2,664 |
| Ased â Hawl i Ddefnyddio | 8 | 1,431 | 1,565 |
| Asedau anniriaethol | 9 | 834 | 883 |
| | | 4,914 | 5,112 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 10 | 1,573 | 2,895 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 11 | 629 | 651 |
| | | 2,202 | 3,546 |
| **Cyfanswm Asedau** | | 7,116 | 8,658 |
| **RHWYMEDIGAETHAU** | | | |
| **RHWYMEDIGAETHAU ANGHYFREDOL** | | | |
| Atebolrwydd pensiwn | 15 | 180 | 228 |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 13 | - | - |
| Darpariaethau | 14 | 413 | 333 |
| Rhwymedigaethau lesoedd | 5 | 941 | 1,012 |
| | | 1,534 | 1,573 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 13 | 2,155 | 2,872 |
| Darpariaethau | 14 | 186 | 252 |
| Rhwymedigaethau lesoedd | 5 | 427 | 495 |
| Treth daladwy | 6 | 16 | 22 |
| | | 2,784 | 3,641 |
| **CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU** | | 4,318 | 5,214 |
| **CYFANSWM ASEDAU HEB RWYMEDIGAETHAU** | | 2,798 | 3,444 |
| **ECWITI** | | | |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 12 | 226 | 348 |
| Enillion wedi'u cadw | 12 | 2,572 | 3,096 |

Mae'r nodiadau o dudalen 34 i dudalen 77 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

| | | |
|---|---|---|
| **CYFANSWM ECWITI** | 2,798 | 3,444 |

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, roedd gan y cwmni hawl i gael ei esemptio o ofynion Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 o dan adran 482 o’r Ddeddf hon (cwmnïau nad ydynt yn gwneud elw sy'n destun archwiliad sector cyhoeddus).

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 04 Tachwedd 2025 ac fe’u llofnodwyd ar ei ran gan E Cassin – Cadeirydd.



Rhif cwmni cofrestredig: 07442837

## DATGANIAD AM NEWIDIADAU MEWN ECWITI

## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025

| | Enillion a Gadwyd | Cronfa Ailbrisio | Cyfanswm Ecwiti |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | 12,091 | 348 | 12,439 |
| **Newidiadau mewn Ecwiti** | | | |
| Elw am y flwyddyn | 1,504 | - | 1,504 |
| Colled actiwaraidd wedi'i ailddatgan | (10,499) | - | (10,499) |
| Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio Addasiadau | - | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024 wedi'i ailddatgan** | 3,096 | 348 | 3,444 |
| **Newidiadau mewn Ecwiti** | | | |
| Elw am y flwyddyn | 3,215 | - | 3,215 |
| Colled actiwaraidd | (3,739) | - | (3,739) |
| Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio Addasiadau | - | (122) | (122) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | 2,572 | 226 | 2,798 |

Mae'r nodiadau o dudalen 34 i dudalen 77 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

**DATGANIAD AM LIFAU ARIAN**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

**Llif arian o weithgareddau gweithredu**

| | Nodiadau | 2025<br>£'000 | 2024<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau | | 2,217 | 1,768 |
| Llog a dalwyd | 4 | (6) | (6) |
| Treth a dalwyd | 6 | (21) | (22) |
| Arian parod net o weithgareddau gweithredu | | 2,190 | 1,740 |

**Llif arian o weithgareddau buddsoddi**

| | Nodiadau | 2025<br>£'000 | 2024<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Taliad i gaffael asedau anghyffyrddadwy | 9 | (1,426) | (1,399) |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | 7 | (331) | (198) |
| Llog a dderbyniwyd | 4 | 75 | 116 |
| Arian parod net o weithgareddau buddsoddi | | (1,682) | (1,481) |

**Llif arian o weithgareddau ariannu**

| | Nodiadau | 2025<br>£'000 | 2024<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Talu llog ar lesoedd | 5 | (28) | (21) |
| Talu'r prifswm ar lesoedd | 5 | (502) | (528) |
| Arian parod net o weithgareddau ariannu | | (530) | (549) |
| **Cynnydd mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod** | | (22) | (290) |
| **Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 11 | 651 | 941 |

| | Nodiadau | 2025<br>£'000 | 2024<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 11 | 629 | 651 |

Mae'r nodiadau o dudalen 34 i dudalen 77 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

## NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIAD AM LIFAU ARIAN

## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025

### CYSONI'R (GOLLED) CYN TRETH GORFFORAETHOL Â'R ARIAN PAROD A GYNHYRCHWYD YN SGIL GWEITHREDIADAU

| | Nodiadau | 2025 | 2024 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| Elw / (Colled) cyn treth gorfforaethol a llog | | 3,162 | 1,416 |
| Dibrisiant ac Amhariad Eiddo | 7 | 224 | 140 |
| Dibrisiant Asedau â Hawl i'w Defnyddio | 5 | 524 | 577 |
| Amorteiddio | 9 | 1,475 | 1,563 |
| Colled ar Waredu Asedau | | - | - |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 4 | 9,487 | 9,213 |
| Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | 4 | (13,235) | (11,734) |
| | | 1,637 | 1,175 |

| | Nodiadau | 2025 | 2024 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y derbyniadau masnachol ac eraill | 10 | 1,322 | (379) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau | 14 | 14 | - |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill | 13 | (717) | 655 |
| Gwahaniaeth rhwng costau pensiwn a chyfraniadau arian parod | 15 | (39) | 317 |
| **Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau** | | 2,217 | 1,768 |

**NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

## 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

### Sail y gwaith paratoi

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi'u paratoi yn unol â dehongliadau'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol ac â'r rhannau hynny o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n adrodd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Mae'r Datganiadau Ariannol wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy ailbrisio asedau penodol. Mae'r polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn gyson â rhai o'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried effaith y safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond nad ydynt yn effeithiol eto ac nad ydynt wedi'u mabwysiadu gan y cwmni'n gynnar. Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn na fydd yr un ohonynt yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

### Gwariant

Mae gwariant (yn cynnwys costau gweinyddol/staff) yn seiliedig ar y sail croniadau ac fe'i dangosir yn gros o TAW.

### Cydnabod refeniw

Cydnabyddir cyllid Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 20 – Cyfrifyddu ar gyfer Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth. Mae'r grant yn cael ei baru yn y cyfnod perthnasol â'r gost y bwriedir iddo wneud iawn amdani a chaiff unrhyw grant nas gwariwyd ei ohirio neu ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Bydd grantiau sy'n gysylltiedig ag asedau cyfalaf (diriaethol neu'n anniriaethol) yn cael eu cydnabod yn y Datganiad am Elw a Cholled dros oes ddefnyddiol yr ased. Bydd y grant yn cael ei drin fel incwm grant gohiriedig hyd nes y bydd y gost yn cael ei chydnabod.

Mae CCDG wedi cynnal adolygiad o incwm nad yw'n dod o grantiau at ddibenion "Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 15 – Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid" ac ond yn codi anfonebau ac yn cydnabod refeniw pan yr ydym yn fodlon ein bod wedi bodloni'r rhwymedigaethau perfformiad o fewn y contract. Bydd anfonebau'n cael eu codi, naill ai'n fisol neu'n chwarterol, drwy gydol oes y contract unwaith y bydd rhwymedigaethau wedi'u bodloni.

### Masnach a symiau taladwy eraill

Mae symiau taladwy masnach yn rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u caffael gan gyflenwyr yn ystod busnes arferol. Mae symiau taladwy masnach yn cael eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os nad yw, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

**NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL - parhad**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

**Masnach a symiau derbyniadwy eraill**

Mae symiau derbyniadwy masnach yn cynrychioli cost y gwasanaeth a ddarparwyd sydd wedi'i hanfonebu at gwsmeriaid ac sy'n parhau i fod yn ddyledus. Mae incwm cronedig yn cynnwys prosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn bennaf. Mae symiau derbyniadwy masnach ar gyfer rhwymedigaethau perfformiad a fodlonir dros amser yn cael eu cydnabod yn raddol, gan fod y rhwymedigaeth perfformiad wedi'i bodloni ac yn llawn unwaith y bydd yr anfoneb yn ddyledus.

Caiff symiau derbyniadwy eu cydnabod yn unol â'u gwerth teg, ac yna eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio heb lwfans colled ddisgwyliedig. Mae balansau cyfrifon yn cael eu dileu naill ai'n rhannol neu'n llawn os bernir bod y tebygolrwydd o adennill yn fach iawn. Cydnabyddir lwfans colled ddisgwyliedig ac amhariadau yn y datganiad incwm o dan dreuliau gweithredu.

**Darpariaethau**

Mesurir darpariaethau ar sail gwerth presennol y gwariant y disgwylir iddo fod yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Gwneir darpariaeth os bodlonir y meini prawf canlynol:

- bod rhwymedigaeth bresennol (gyfreithiol neu ddeongliadol) wedi codi yn sgil digwyddiad yn y gorffennol (y digwyddiad sy'n creu'r rhwymedigaeth)
- bod taliad yn debygol ('yn fwy tebygol na pheidio') a
- bod modd amcangyfrif y swm mewn ffordd ddibynadwy.

Mae'r unig ddarpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol eleni yn ymwneud â dadfeiliadau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau yn seiliedig ar y costau atgyweirio disgwyliedig yn y dyfodol sydd eu hangen i adfer adeiladau ar les CCDG i'w cyflwr teg ar ddiwedd telerau eu les briodol. Bydd CCDG yn creu darpariaeth yn y cyfrifon ar yr adeg pan fydd y newidiadau i'r eiddo yn digwydd a bod amodau'r les yn nodi gofyniad i adfer yr eiddo. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau yn amcangyfrif o'r costau yn seiliedig ar lefel y gwaith adfer sy'n ofynnol gan ein staff mewnol. Ym mlwyddyn olaf y brydles, byddwn yn ymdrechu i ofyn am gyngor allanol gan syrfewyr i sicrhau bod ein hamcangyfrif darpariaeth mor gywir â phosibl. Ni fydd y ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau yn cael ei chofnodi ar y gwerth presennol.

**Rhwymedigaeth ddigwyddiadol**

Bydd rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn cael ei chofnodi yn y cyfrifon os bodlonir y naill neu'r llall o'r amodau canlynol:

a) rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau blaenorol y bydd ei bodolaeth ond yn cael ei chadarnhau pan fydd un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr endid yn digwydd neu'n peidio â digwydd neu

b) rhwymedigaeth bresennol sy'n codi o ddigwyddiadau blaenorol ond na chaiff ei chydnabod oherwydd y canlynol:

   i. nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau sy'n ymgorffori buddion economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth; neu

   ii. ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth gyda digon o ddibynadwyedd.

Bydd CCDG yn gwneud datgeliad yn y cyfrifon pan fo rhwymedigaeth bosibl neu rwymedigaeth bresennol a allai fod angen all-lif o adnoddau ond ni fydd yn debygol o fod angen hynny.

**NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

**Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod**

Yn y datganiad am lifau arian, mae arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon a gedwir yn y banc.

**Cronfeydd wrth gefn**

Pan fydd angen, gallai CDDG gadw dwy gronfa wrth gefn. Yn gyntaf, Enillion a Gadwyd, sef elw a cholledion cronnus y cwmni, ac, yn ail, y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, sy'n cynnwys enillion y cwmni sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei eiddo, ei gyfarpar a'i offer a'i asedau anniriaethol. Bydd y balans ar y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cael ei ostwng pan fydd asedau, gan gynnwys enillion cronnus, yn gwneud y canlynol:

- yn cael eu hailbrisio i'w gwerth is neu'n cael eu hamharu, gan golli'r enillion, neu
- yn cael eu gwaredu a gwireddir yr enillion.

**Eiddo, cyfarpar ac offer**

Mae eitemau unigol dros £2,500 sydd ag oes ddefnyddiol o fwy nag un cyfnod yn cael eu categoreiddio'n asedau sefydlog. Nid yw CCDG yn grwpio asedau i'w cyfalafu.

Mae eiddo rhydd-ddaliadol wedi'i rannu'n ddwy gydran: adeiladau a thir. Yn achos tir ac adeiladau, bydd ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol cysylltiedig yn cael eu cyfalafu hefyd. Dim ond yr elfen adeiladau sydd wedi'i dibrisio.

Mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 16 yn ei gwneud yn ofynnol y dylid rhannu asedau'n gydrannau lle bydd y gost yn arwyddocaol yng nghyswllt cyfanswm cost yr ased. Os bydd cydrannau adeilad yn fwy na'r lefel perthnasedd, bydd y rhain yn dod yn endidau ar wahân yn y nodyn eiddo, cyfarpar ac offer ac yn cael eu dibrisio dros oes fuddiol y gydran, yn ôl yr amcangyfrif. Defnyddir y cyfraddau blynyddol a ganlyn wrth ddibrisio er mwyn dileu pob ased dros ei oes ddefnyddiol yn ôl yr amcangyfrif:

| Dosbarth Eiddo | Dibrisiant |
|---|---|
| Eiddo rhydd-ddaliadol | Llinell syth dros 50 mlynedd |
| Eiddo lesddaliadol | Pum mlynedd neu weddill tymor y les, pa un bynnag fydd y lleiaf |
| Gosodiadau a ffitiadau | 5 mlynedd |
| Offer cyfrifiadurol | 3 blynedd |

**SAFON ADRODD ARIANNOL RYNGWLADOL 16 – Lesoedd**

Diffinnir cyfnod y les fel cyfnodau'r les na ellir eu canslo. Mae'r lesoedd canlynol wedi'u hesemptio o ofynion cydnabod Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16:

1 lesoedd gyda chyfnod les o 12 mis neu lai ac sy'n cynnwys dim opsiynau prynu – gwneir y dewis hwn yn ôl dosbarth yr ased gwaelodol a

2 lesoedd lle mae gwerth isel gan yr ased gwaelodol pan fo’n newydd – gellir gwneud y dewis hwn fesul les. Rydym wedi gosod y trothwy gwerth isel ar £5,000.

**NODIADAU YNGLŶN Â’R DATGANIADAU ARIANNOL - parhad**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

Mae CCDG wedi cydnabod rhwymedigaeth les a fesurwyd ar werth presennol y taliadau les sy'n weddill, wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd fenthyca gynyddrannol o 4.72% ar gyfer pob les dyddiedig ar ôl 01 Ionawr 2024 a 4.81% ar gyfer pob les dyddiedig o Ionawr 2025, mae hyn yn berthnasol i lesoedd newydd, addasiadau les perthnasol neu ailfesuriadau. Mae gwerth yr asedau â hawl i'w defnyddio yn hafal i rwymedigaeth y lesoedd. Os gallwn nodi unrhyw ddangosyddion newid allanol neu fewnol fel y'u diffinnir yn Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 36, cynhelir adolygiad amharu ar gyfer pob ased ar les â hawl i'w ddefnyddio a bydd colled amhariad yn cael ei chydnabod yn erbyn unrhyw ased ar les â hawl i'w ddefnyddio sydd wedi'i amharu.

Mae asedau ar les yn cael eu cyfalafu ar ddyddiad cychwyn y les. Mae pob taliad les yn cael ei ddyrannu rhwng rhwymedigaeth y les a chost cyllid. Yn dilyn hynny, mae'r asedau â hawl i'w defnyddio yn cael eu mesur ar gost heb ddibrisiant cronnus a cholledion amharu cronnus a bydd lesoedd yn cael eu haddasu os oes unrhyw addasiadau i'r les. Bydd is-lesoedd o ofodau swyddfa yn cael eu trin fel les weithredu.

Mae asedau â'r hawl i'w defnyddio yn cael eu dibrisio dros gyfnod y les ar sail llinell syth. Mae taliadau sy'n gysylltiedig â holl lesoedd tymor byr a lesoedd ar asedau o werth isel yn cael eu cydnabod fel cost wrth gyfrifo elw a cholled. Yn ystod y flwyddyn ariannol, nid oedd prydlesi tymor byr na gwerth isel. Wrth gyfrifo'r ased â hawl i'w ddefnyddio, nid ydym wedi cynnwys costau y disgwylir iddynt godi ar ddiwedd y les, megis datgymalu'r ased neu roi'r safle yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol. Bydd y rhain yn cael eu trin yn unol â’n rheolau darpariaeth pan fydd y meini prawf yn cae l eu bodloni neu fel croniad pan fydd gennym sicrwydd o’r rhwymedigaeth sy’n codi. Rydym wedi treulio'r costau uniongyrchol sy'n ymwneud â lesoedd newydd (e.e. ffioedd cyfreithiol) ac nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad ar gyfer hawl i’w defnyddio.

Mae CCDG yn lesio eiddo amrywiol ac offer bach eraill, er enghraifft cyfrifiaduron a ffonau symudol. Caiff lesoedd eu trafod yn unigol ac maent yn cynnwys ystod eang o delerau ac amodau gwahanol (gan gynnwys hawliau terfynu ac adnewyddu).

Nid ydym yn cydgrynhoi gwerthoedd lesoedd. Mae pob les yn cael ei chymryd yn annibynnol ac ond eiddo ar les oedd yn bodloni'r meini prawf sy’n cael eu categoreiddio fel les o dan Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16.

**Mae prif nodweddion y lesoedd wedi'u crynhoi isod:**

Caiff eiddo ei rentu am gyfnod o flwyddyn i ddeng mlynedd. Mae’r taliadau les fel arfer yn sefydlog gydag opsiwn o gymal terfynu ar gyfer y lesoedd hirach hanner ffordd drwy gyfnod y les. Mae rhai o'r eiddo â lesoedd hirach yn destun adolygiadau rhent bob pum mlynedd.

**Prisiadau**

Bydd tir ac adeiladu'n cael eu prisio ar sail gwerth teg, ar sail eu gwerth ar y farchnad agored ar gyfer eu defnydd ar y pryd, a byddant yn cael eu hailbrisio gan gwmni proffesiynol annibynnol bob pum mlynedd yn unol â safonau prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig – Safonau Byd-eang 2022. Mae’r ailbrisiad diweddaraf yn cynrychioli gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2023, gyda'r prisiad yn cael ei wneud gan briswyr cofrestredig Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) Harris a Birt.

Archwiliwyd yr eiddo gan y priswyr ac maent wedi penderfynu eu bod mewn cyflwr da a'u bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol angenrheidiol. Roedd y priswyr hefyd yn tybio nad oedd yr eiddo dan forgeisi nac arwystlon. Mae'r adroddiad yn rhagdybio nad oes unrhyw faterion amgylcheddol andwyol a allai gael effaith sylweddol ar werth marchnad yr eiddo. Cwblhawyd adolygiad amhariad o'r tir a'r Eiddo gan Briswyr Harris a Birt ar Fawrth 31 2025, ac fe wnaethant benderfynu bod nifer o eiddo ag amhariad oherwydd galw lefel isel am swyddfeydd mewn rhai

lleoliadau.

**NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL- parhad**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

**Asedau a ddelir i'w gwerthu**

Mae asedau a ddelir i'w gwerthu yn cyfeirio at yr asedau hynny y mae cwmni yn bwriadu eu gwerthu yn hytrach na'u defnyddio yn ei weithrediadau o ddydd i ddydd. Byddwn yn dosbarthu ased fel un a ddelir i'w werthu os yw'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Cafwyd cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd CCDG i werthu'r ased
- Mae tebygolrwydd uchel y bydd y gwerthiant yn digwydd o fewn blwyddyn

Ar gyfer gwerthu eiddo

- Mae'r adeilad ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol
- Mae'r eiddo wedi cael ei farchnata'n weithredol ar e-pims i'w werthu i'r sector cyhoeddus ehangach
- Mae'r eiddo wedi ymgymryd â phrisiad llyfr coch cyn ei roi mewn e-pims ac yn cael ei farchnata am y gwerth hwn

Ni fydd asedau a ddelir i'w gwerthu yn cael eu dibrisio. Bydd yr asedau yn cael eu cadw ar wahân ar y fantolen o dan asedau cyfredol

Mae IFRS 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datgeliadau canlynol am asedau (neu grwpiau gwaredu) sy'n cael eu dal i'w gwerthu: [IFRS 5.41]

- disgrifiad o'r ased anghyfredol neu'r grŵp gwaredu
- disgrifiad o ffeithiau ac amgylchiadau'r gwerthiant (gwaredu) a'r amseriad disgwyliedig
- colledion amharu a gwrthdroadau, os o gwbl, a lle yn y datganiad o incwm cynhwysfawr maent yn cael eu cydnabod

Bydd yr enillion neu'r golled ôl-dreth a gydnabyddir ar y mesuriad i werth teg llai cost i'w werthu neu addasiadau gwerth teg ar waredu'r asedau yn cael ei gyflwyno fel swm sengl ar wyneb y datganiad o incwm cynhwysfawr.

## NODIADAU YNGLŶN Â’R DATGANIADAU ARIANNOL
## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025

### Asedau anniriaethol

Mae'r holl asedau anniriaethol yn cael eu mesur ar gost gros ac mae amorteiddio yn dechrau pan nodir y dyddiad defnyddio. Bydd Trwyddedau Meddalwedd sydd ag oes ddefnyddiol benodol dros flwyddyn yn cael eu hamorteiddio dros yr oes honno ar sail llinell syth, bydd trwyddedau meddalwedd y disgwylir iddynt gael eu defnyddio o fewn blwyddyn yn cael eu trin fel traul. Bydd datblygiad meddalwedd yn cael ei amorteiddio dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd datblygu gwefannau ar y rhyngrwyd yn cael ei amorteiddio dros ddwy flynedd. Yn ôl Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 38, dylai'r amcangyfrif gorau o oes gwefan fod yn fyr. Felly, ar gyfer gwariant sy'n ymwneud â datblygu gwefannau, yn y flwyddyn gyntaf mae blwyddyn lawn o gostau wedi'u hamorteiddio wedi'i chynnwys yn y Datganiad am Elw a Cholled.

Mae costau amorteiddio ac amhariad asedau anniriaethol wedi'u cynnwys yn y treuliau gweinyddol yn y Datganiad am Elw a Cholled. Rydym wedi parhau i ddatgomisiynu adrannau o’n hen wefan, gan arwain at waredu costau datblygu gwefan o £147 (2024: £439k), gwnaethom hefyd waredu trwyddedau meddalwedd o £540k (2024: £519k).

### Trethiant

Mae'r trethi cyfredol wedi'u seilio ar y canlyniadau a ddangosir yn y Datganiadau Ariannol ac fe'u cyfrifir yn unol â rheolau trethi lleol, gan ddefnyddio cyfraddau treth sydd ar waith neu sydd ar waith i raddau sylweddol erbyn dyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol.

### Costau buddion gweithwyr

Ar gyfer cynlluniau â buddion wedi’u diffinio, y symiau a briodolir i’r elw gweithredu yw costau cyfredol y gwasanaeth a'r enillion a'r colledion sy'n gysylltiedig â setliadau a chwtogiadau. Maent yn cael eu cynnwys fel rhan o gostau staff. Mae costau gwasanaeth yn y gorffennol yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y cyfrif elw a cholled os bydd y buddion wedi’u rhoi. Os na fydd y buddion wedi’u rhoi ar unwaith, bydd y costau'n cael eu cydnabod dros y cyfnod nes byddant yn cael eu rhoi. Mae cost y llog a'r enillion a ddisgwylir ar asedau wedi'u datgan ar wahân yn y Nodyn ar Incwm Cyllid Net ac wedi'u cynnwys yn y Costau Cyllid ac Incwm Cyllid yn y drefn honno yn y Datganiad am Elw neu Golled. Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd ar unwaith yn y Datganiad am Elw a Cholled ac Incwm Cynhwysfawr Arall. Ariennir cynlluniau â buddion wedi’u diffinio, gydag asedau'r cynllun yn cael eu cadw ar wahân i rai'r sefydliadau sy'n aelodau, mewn cronfeydd ar wahân sy'n cael eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr. Caiff asedau cynlluniau pensiwn eu mesur ar sail gwerth teg a bydd rhwymedigaethau'n cael eu mesur ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio’r dull uned ragamcanol, a'u disgowntio ar gyfradd sydd gyfwerth â'r gyfradd enillion ar fond corfforaethol o safon uchel mewn arian cyfred cyfatebol ac am gyfnod sy’n cyfateb i rwymedigaethau'r cynllun.

Ceir y prisiadau actiwaraidd o leiaf bob tair blynedd a chânt eu diweddaru ar ddyddiad pob mantolen. Cyflwynir yr ased neu rwymedigaeth â buddion wedi’u diffinio sy'n deillio o hynny ar wahân, yn net o’r dreth ohiriedig gysylltiedig ac ar ôl asedau net eraill, a hynny ar wyneb y fantolen.

### Defnyddio amcangyfrifon a dyfarniadau

Wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol, bydd gofyn i CCDG lunio amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar roi'r polisïau a'r symiau yr adroddir yn eu cylch ar waith. Caiff amcangyfrifon a dyfarniadau eu hadolygu'n barhaus. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnod yn y dyfodol yr effeithir arno.

`



**NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL – parhad**
**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

Mae gwybodaeth am feysydd amcangyfrif arwyddocaol a defnyddio barn feirniadol wrth roi’r polisïau cyfrifyddu ar waith sy’n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y Datganiadau Ariannol wedi’i chynnwys yn y nodyn canlynol:

***Nodyn 15*** – Mae mesur cyfraniadau â buddion wedi'u diffinio yn dibynnu ar ddethol rhagdybiaethau penodol sy'n cynnwys y gyfradd ddisgowntio, twf cyflogau, cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig, a'r enillion disgwyliedig ar asedau cynlluniau.

Mae meysydd arwyddocaol eraill mewn perthynas ag amcangyfrifon a dyfarniadau beirniadol yn cynnwys y canlynol:

- Mae ailbrisio eiddo, cyfarpar ac offer a phrisiadau lesddaliadau wedi’u seilio ar gyngor proffesiynol
- Mae amcangyfrifon ynglŷn â chroniadau ar ddiwedd y flwyddyn wedi'u seilio ar waith a gwblhawyd neu nwyddau a dderbyniwyd ond nas anfonebwyd.

At ddibenion Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16, er mwyn cyfrifo’r gyfradd fenthyca gynyddrannol, byddwn yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM a gyhoeddir mewn papurau eiddo, cyfarpar ac offer. Wrth amcangyfrif cyfnod y les, lle mae gennym opsiwn i ymestyn y les, bydd y rheolwyr yn defnyddio eu crebwyll i benderfynu a fyddai opsiwn yn weddol sicr o gael ei arfer cyn ei gynnwys yn rhwymedigaethau’r les.

**Darpariaethau – dadfeiliadau** Mae gwerth amcangyfrifedig y ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau yn seiliedig ar y costau atgyweirio disgwyliedig yn y dyfodol sydd eu hangen i adfer adeiladau ar les CCDG i'w cyflwr teg ar ddiwedd telerau eu les briodol. Bydd CCDG yn creu darpariaeth yn y cyfrifon ar yr adeg pan fydd y newidiadau i'r eiddo yn digwydd a bod amodau'r les yn nodi gofyniad i adfer yr eiddo. Bydd y ddarpariaeth dadfeiliadau yn amcangyfrif o'r costau yn seiliedig ar lefel yr adfer sy'n ofynnol gan ein staff mewnol. Ym mlwyddyn olaf y les, byddwn yn ymdrechu i ofyn am gyngor allanol gan syrfewyr i sicrhau bod ein hamcangyfrif darpariaeth mor gywir â phosibl.

**Busnes hyfyw**

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw. Cawsom gadarnhad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf y bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn £32.63m, ar ddiwedd y flwyddyn mae gennym arian parod o £629k mewn llaw a sefyllfa ecwiti gadarnhaol o £2.80m. Mae'r cwmni wedi gwneud asesiad ein bod yn gallu cyflawni ein rhwymedigaethau fel y byddant yn ddyledus.

**NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL - parhad**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

## 2. REFENIW

| | | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | – Refeniw Craidd | 19,387 | 19,884 |
| Llywodraeth Cymru | – Cyfalaf Craidd | 1,757 | 1,600 |
| Llywodraeth Cymru | – Cymru'n Gweithio | 9,280 | 10,280 |
| Llywodraeth Cymru | – Arall | 1,056 | 2,957 |
| Prosiectau ESF | – Actifadu | 22 | - |
| Contractau ac incwm eraill | | 57 | 48 |
| Incwm gohiriedig | | (1,059) | (887) |
| Incwm Gohiriedig a Ryddhawyd | | 927 | 958 |
| | | 31,427 | 34,840 |

## 3. GWEITHWYR A CHYFARWYDDWYR

**Costau Staff**

| | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl a chyflogau | 19,477 | 21,718 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,932 | 2,041 |
| Costau pensiwn eraill | 86 | 2,626 |
| | 21,495 | 26,385 |

Mae'r costau uchod yn cynnwys ffigur o £192k (2024: £1,764k) sy'n ymwneud ag achosion o ddileu swyddi'n wirfoddol a gafwyd yn ystod y flwyddyn.

**Niferoedd staff**

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| Rheoli a Gweinyddu | 85 | 84 |
| Darparu gwasanaethau | 511 | 560 |
| | 596 | 644 |

**NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL - parhad**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

**Costau gweithwyr uwch**

| | 2025 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfarwyddwyr £'000 | Uwch-reolwyr £'000 | Cyfarwyddwyr £'000 | Uwch-reolwyr £'000 |
| Buddion i weithwyr - Tymor Byr | 12 | 334 | 15 | 318 |
| Buddion Ôl-gyflogaeth | 0 | 53 | 0 | 52 |
| | 12 | 387 | 15 | 370 |

Roedd costau cyflog a buddion y Prif Weithredwr yn £154k ar gyfer 2024/25 (2023/24: £142,000: £149k).

Mae gan ddau Uwch Reolwr y term Cyfarwyddwr yn eu rôl swydd; fodd bynnag, nid ydynt yn Gyfarwyddwyr Bwrdd. Roedd nifer y Cyfarwyddwyr yr oedd buddion ymddeol yn cronni iddynt fel a ganlyn:

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| Cynllun Cyflog Terfynol | 0 | 0 |

**4. INCWM CYLLID NET**

| | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm cyllid: | | |
| Llog ar y cyfrif cadw | 75 | 116 |
| Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | 13,235 | 11,734 |
| | 13,310 | 11,850 |
| Costau cyllid: | | |
| Llog banc | (6) | (6) |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | (9,487) | (9,213) |
| | (9,493) | (9,219) |
| Incwm cyllid net | 3,817 | 2,631 |

**NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL - parhad**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

## 5. ELW / (COLLED) CYN TRETH

Mae'r elw / (colled) cyn treth yn cael ei nodi ar ôl ei chodi:

| | 2025<br>£'000 | 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Dibrisiant | 185 | 140 |
| Amorteiddiad ac amhariad | 1,514 | 1,563 |
| Tâl archwilwyr – Allanol | 107 | 107 |
| Tâl archwilwyr – Mewnol | 21 | 15 |
| | 1,827 | 1,825 |

Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys TAW lle bo'n berthnasol.

## 6. TRETH GORFFORAETHOL

**Dadansoddiad o gostau treth**

| | 2025 | | | 2024 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Swm<br>£'000 | Cyfradd | Treth<br>£'000 | Swm<br>£'000 | Cyfradd | Treth<br>£'000 |
| Incwm nad oedd treth yn ddyledus arno | 31,427 | 0% | - | 34,840 | 0% | - |
| Elw nad yw'n graidd | - | 0% | - | - | 0% | - |
| Llog | 75 | 21.54% | 16 | 116 | 19% | 22 |
| Cost ychwanegol o'r flwyddyn flaenorol | | | 5 | | | |
| | | | 21 | | | 22 |

Mae CCDG yn talu treth gorfforaethol ar log derbyniadwy ac elw ar weithgareddau nad ydynt yn rhai craidd ar gyfradd treth gorfforaethol y DU, sef 21.54%, wedi'i ostwng o 25% ar ôl rhyddhad ymylol. Mae hyn yn arwain at godi tâl o £16k ar gyfer eleni fel y manylir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Fodd bynnag, yn y Datganiad o Elw neu Golled ac Incwm Cynhwysfawr Arall, mae tâl o £21k oherwydd tanamcangyfrif o £5k o dreth gorfforaeth y llynedd a dalwyd o fewn y flwyddyn ariannol.

**Effeithiau treth sy'n berthnasol i effeithiau incwm cynhwysfawr o fathau eraill**

| | 2025 | | |
|---|---|---|---|
| | Gros<br>£'000 | Treth<br>£'000 | Net<br>£'000 |
| Colled actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | (3,739) | - | (3,739) |
| | 2024 wedi'i ailddatgan | | |
| | Gros | Treth | Net |

`



| | £'000 | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|
| Colled actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | (10,499) | - | (10,499) |

## 7. EIDDO, CYFARPAR AC OFFER

| **2024-25** | Gwelliannau Lesddaliadol £'000 | Tir ac adeiladau £'000 | Gosodiadau a Ffitiadau £'000 | Offer Cyfrifiadurol £'000 | Cyfansymiau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **COST NEU BRISIAD** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 582 | 2,316 | 413 | 200 | 3,511 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 22 | | 284 | 25 | 331 |
| Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn | | | | (22) | (22) |
| Ailbrisiad wedi'i gydnabod yn y gronfa ailbrisio wrth gefn | | (122) | | | (122) |
| Amhariadau yn ystod y flwyddyn | | (39) | | | (39) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 604 | 2,155 | 697 | 203 | 3,659 |
| **DIBRISIANT** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 441 | 34 | 184 | 188 | 847 |
| Tâl am flwyddyn | 55 | 34 | 86 | 10 | 185 |
| Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn | | | | (22) | (22) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 496 | 68 | 270 | 176 | 1,010 |
| **GWERTH NET AR Y LLYFRAU** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 108 | 2,087 | 427 | 27 | 2,649 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 141 | 2,282 | 229 | 12 | 2,664 |

Nodiadau ynglŷn ag eiddo, cyfarpar ac offer: Nid oedd unrhyw asedau ar werth ar ddiwedd y flwyddyn. Y gwerth gros ar y llyfrau ar gyfer asedau sydd wedi'u dibrisio'n llawn ac sy'n dal i gael eu defnyddio yw £63. Gan ddefnyddio model cost, y gwerth net ar y llyfrau ar gyfer eiddo cyfarpar ac offer fyddai

£2,480. Mae'r gostyngiad yn ymwneud â thir ac adeiladau yn unig.

`



**NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL - parhad**
**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2024**

**7. EIDDO, CYFARPAR AC OFFER – parhad**

| **2023-24** | Gwelliannau Lesddaliadol £'000 | Tir ac adeiladau £'000 | Gosodiadau a Ffitiadau £'000 | Offer Cyfrifiadurol £'000 | Cyfansymiau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **COST NEU BRISIAD** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 528 | 2,316 | 269 | 329 | 3,442 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 54 | | 144 | | 198 |
| Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn | | | | (129) | (129) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 582 | 2,316 | 413 | 200 | 3,511 |
| **DIBRISIANT** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 391 | - | 140 | 305 | 836 |
| Tâl am flwyddyn | 50 | 34 | 44 | 12 | 140 |
| Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn | | | | (129) | (129) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 441 | 34 | 184 | 188 | 847 |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 141 | 2,282 | 229 | 12 | 2,664 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 137 | 2,316 | 129 | 24 | 2,606 |

Nodiadau ynglŷn ag eiddo, cyfarpar ac offer: Nid oedd unrhyw asedau ar werth ar ddiwedd y flwyddyn. Y gwerth gros ar y llyfrau ar gyfer asedau sydd wedi'u dibrisio'n llawn ac sy'n dal i gael eu defnyddio yw £51. Gan ddefnyddio model cost , y gwerth net ar y llyfrau ar gyfer eiddo cyfarpar ac offer fyddai £1,801. Mae'r gostyngiad yn ymwneud â thir ac adeiladau yn unig.

`

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA LTD

31 MAWRTH 2025

## 8. SAFON ADRODD ARIANNOL RYNGWLADOL 16 – Lesoedd

Yn y cyfrifiad hawl i ddefnyddio, mae CCDG ond yn cynnwys lesoedd yr ydym yn bwriadu eu hymestyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf lle rydym yn weddol sicr y byddwn yn arfer yr opsiwn hwn ac rydym wedi dechrau'r broses o adnewyddu'r les. Ni wnaeth CCDG nodi unrhyw sbardunau mewnol nac allanol a fyddai'n gofyn am adolygiad amharu o'r defnydd cywir o asedau eleni. O ran risg hylifedd, daeth CCDG i'r casgliad, oherwydd y statws asedau cadarnhaol sylweddol a balans banc iach ar ddiwedd y flwyddyn, y byddwn yn gallu bodloni ein rhwymedigaethau les yn y dyfodol.

Mae'r datganiad am y sefyllfa ariannol yn dangos yr eitem linell ar wahân ar gyfer yr asedau â'r hawl i'w defnyddio, sy'n cynnwys y canlynol:

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Ased â Hawl i'w Ddefnyddio** | 1,431 | 1,565 |
| | Adeiladau | |
| Ased agoriadol â hawl i'w ddefnyddio | 1,565 | 1,826 |
| Ychwanegiadau – contract les newydd | 390 | 321 |
| Llai: Diwygiad yr hawl i ddefnyddio | - | (5) |
| Dibrisiant y contract les | (524) | (577) |
| **Balans cau** | **1,431** | **1,565** |

**Rhwymedigaeth lesoedd**

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Tymor Byr | 427 | 495 |
| Hirdymor | 941 | 1,012 |
| | **1,368** | **1,507** |

Mae'r symiau canlynol yn cael eu cydnabod mewn elw neu golled:

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Tâl dibrisiant | 524 | 577 |
| Cyfanswm Dibrisiant | **524** | **577** |

## NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL - parhad
## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025

| | | |
|---|---|---|
| Costau llog ar rwymedigaethau lesoedd (wedi'u cynnwys yn y costau cyllid) | 28 | 22 |
| Treuliau sy'n gysylltiedig â lesoedd tymor byr | - | - |
| Treuliau sy'n gysylltiedig ag asedau o werth isel | - | - |
| Treuliau lesoedd gweithredu (IAS 17) | - | - |
| **Cyfanswm treuliau sy'n gysylltiedig â lesoedd** | **552** | **599** |

Mae'r symiau canlynol yn cael eu cydnabod yn y datganiad llifau arian:

| **All-lif arian parod ar gyfer lesoedd (IFRS16) – ariannu lesoedd** | 2025<br>£'000 | 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Talu llog ar lesoedd | 28 | 21 |
| Talu'r prifswm ar lesoedd | 502 | 528 |

O fewn nodyn 7 Eiddo, Cyfarpar ac Offer, ceir dau ased eiddo, Parc Menai a'r Barri, sydd â thelerau les hir yn rhychwantu 250 a 900 mlynedd yn y drefn honno ac nid oes ganddynt fawr ddim rhwymedigaethau les sy'n gysylltiedig â nhw. Oherwydd bod hyd y lesoedd a'r gydnabyddiaeth sy'n weddill yn amherthnasol i raddau helaeth, nid yw'r asedau hyn wedi'u dosbarthu fel asedau â hawl i'w defnyddio.

`



**NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL - parhad**
**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

## 9. ASEDAU ANNIRIAETHOL

| 2024-25 | Trwyddedau Meddalwedd £'000 | Meddalwedd Datblygu £'000 | Datblygu Gwefannau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **COST** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 583 | 436 | 3,047 | 4,066 |
| Ychwanegiadau | 494 | 60 | 872 | 1,426 |
| Gwarediadau | (540) | - | (147) | (687) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 537 | 496 | 3,772 | 4,805 |
| **AMORTEIDDIO** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 292 | 272 | 2,619 | 3,183 |
| Tâl am y flwyddyn | 521 | 89 | 865 | 1,475 |
| Gwarediadau | (540) | - | (147) | (687) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 273 | 361 | 3,337 | 3,971 |
| **GWERTH NET AR Y LLYFRAU** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 264 | 135 | 435 | 834 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 291 | 164 | 428 | 883 |

**2023-24**

| | Trwyddedau Meddalwedd £'000 | Meddalwedd Datblygu £'000 | Datblygu Gwefannau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **COST** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 561 | 436 | 2,628 | 3,625 |
